



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

# Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru



Hydref 2017

**llyw.cymru**

# Cynnwys

	Tudalen
<b>Rhagair</b>	1
<b>Polisi trethi Cymru</b>	3
<b>Cynllun Gwaith y Polisi Trethi 2017</b>	6
1) Erbyn mis Hydref 2017, cyhoeddi'r cyfraddau a'r bandiau ar gyfer y dreth trafodiadau tir (LTT), gan gynnwys gordal y cyfraddau uwch a'r cyfraddau ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi (LDT).	6
2) Mae tair eitem yn y cynllun gwaith hwn sy'n ymwneud â pholisi trethi lleol:	11
2) Adolygu'r rhyddhad ardrethi busnesau bach (SBRR) gyda'r bwriad o ddatblygu trefniadau parhaol o 2018 ymlaen.	
7) Gweithio gyda llywodraeth leol i adolygu'r dreth gyngor i'w gwneud yn decach.	
12) Ystyried a fyddai gwahanol ddulliau o godi treth ar eiddo annomestig, fel treth gwerth tir, o fudd i Gymru.	
3) Parhau i ddadlau'r achos dros ddatganoli'r doll teithwyr awyr a datblygu ymhellach y sail dystiolaeth dros wneud hynny.	
4) Ymchwilio i weld a allai'r system drethi ddatganoledig fod yn gymhelliad ar gyfer datblygu tai sy'n fwy effeithlon o ran ynni.	23
5) Ystyried yr achos dros gyflwyno trethi newydd yng Nghymru, gan ymchwilio i'r polisi, elfennau gweinyddol a'r mecanweithiau ar gyfer newid.	25
6) Yn 2017 a 2018, gweithio gyda Llywodraeth y DU i helpu i gyflwyno ardoll y diwydiant diodydd meddal yn llwyddiannus yng Nghymru.	28
7) Pan fydd gan Awdurdod Cyllid Cymru ddigon o ddata, bydd yn dadansoddi data LTT mewn perthynas â gordal y gyfradd uwch ar sail awdurdod lleol. Gellid defnyddio'r dadansoddiad hwn i lywio trafodaethau ag awdurdodau lleol ynglŷn â gweithredu'r gyfradd uwch.	32
8) Yn ystod 2017, ymgynghori ar y defnydd o bwerau troseddol gan Awdurdod Cyllid Cymru fel rhan o'r dull o orfodi trethi Cymreig.	34
9) Datblygu dulliau dadansoddol fel cymorth ar gyfer datblygu polisi'r dreth incwm yng Nghymru.	36
10) Adolygu'r dystiolaeth ar gyfer penderfynu ar y cydbwysedd trethi rhwng incwm ac eiddo	41
<b>Casgliad</b>	44
<b>Atodiad: Papur technegol ar gyfraddau a bandiau</b>	45
Cyflwyniad	45
Y dreth trafodiadau tir	46
Y dreth gwarediadau tirlenwi	63

## Rhagair

Ychydig fisoedd yn ôl, cafodd fframwaith polisi trethi Llywodraeth Cymru a'r cynllun gwaith cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn hon eu cyhoeddi. Mae'r ddogfen hon yn rhoi adroddiad cychwynnol ar y cynnydd hyd yma. Megis dechrau mae'r gwaith ond rwy'n awyddus i weld y rhaglen ymchwil hon, ymhén amser, yn dod yn adnodd gwerthfawr ar gyfer llywio'r polisi trethi yng Nghymru – a thu hwnt hyd yn oed. Mae cyhoeddi'r ddogfen hon ar yr un pryd â'r Gyllideb ddrafft yn gam ymlaen tuag at sicrhau bod mwy o gysondeb rhwng gwariant a'r polisi trethi – proses a fydd yn datblygu ymhellach mewn blynyddoedd i ddod.

Codir trethi i adeiladu cymdeithas wâr. Trethi sy'n ein galluogi i gyflawni gyda'n gilydd yr hyn na allwn ei wneud ar ein pennau ein hunain. Yn y pen draw, mae'r polisiâu y mae llywodraethau yn cael eu hethol i'w cyflawni yn ddibynnol ar drethi.

Nod trethi Cymreig yw:

- Codi referniw i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus gan fod mor deg ag sy'n bosibl
- Cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru, yn enwedig cefnogi twf a swyddi
- Bod yn glir, yn sefydlog ac yn syml
- Cael eu datblygu trwy gydweithredu ac ymwneud
- Cyfrannu'n uniongyrchol at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru fwy cyfartal.

Dros y 18 mis nesaf bydd y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi yn cael eu cyflwyno (o fis Ebrill 2018) yn ogystal â chyfraddau Cymreig y dreth incwm (o fis Ebrill 2019).

Wrth i'r dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi gael eu datblygu, roedd rhanddeiliaid yn gwbl glir eu bod am weld cysondeb â system drethi bresennol Cymru a Lloegr, lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Rwyf i hefyd am weld dull tryloyw, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn cael ei fabwysiadu ar gyfer creu system drethi sefydlog, a fydd yn esblygu'n raddol ac yn rhesymegol. Wrth inni edrych ymlaen ac ystyried sut y gallai trethi Cymreig ddatblygu dros amser, rhaid inni gadw mewn cof bod system drethi Cymru yn bodoli yn erbyn cefndir o drethi'r Deyrnas Unedig (DU) a threthi rhyngwladol.

Bydd y dystiolaeth a fydd yn cael ei chasglu drwy'r cynllun gwaith hwn yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru. Ond rwy'n gobeithio y bydd hefyd yn adnodd defnyddiol i fusnesau a sefydliadau eraill, cymunedau a dinasyddion ar gyfer ystyried sut y gallem ddefnyddio trethi i gefnogi uchelgeisiau ehangach llywodraeth yng Nghymru. Bydd hon yn broses dryloyw a bydd meithrin cysylltiadau â'r cyhoedd yn rhan annatod o waith Llywodraeth Cymru ar gyfer deall sut y gall ein trethi gyfrannu at Gymru well. Rwy'n gobeithio y bydd pobl o bob cefndir – o arbenigwyr trethi i'r rheini nad ydyn nhw wedi ystyried rôl trethi cyn hyn – yn mynegi eu barn am yr hyn rydym yn ei ystyried ac yn rhoi gwybod inni sut y maen nhw'n teimlo y gellid gwella'r system drethi yng Nghymru.

Dros y misoedd nesaf, byddwn yn asesu'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu hyd yma ac yn atgyfnerthu'r cynllun gwaith ar gyfer 2018. I wneud hynny, byddwn yn manteisio ar arbenigedd y Grŵp Cynghori ar Drethi, sy'n cynnwys arbenigwyr trethi a chynrychiolwyr o fusnesau, llywodraeth leol a sefydliadau'r trydydd sector. Mae manylion bras ein cynlluniau i'w gweld ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad cyntaf hwn yn rhoi cipolwg defnyddiol ar y posibiladau ar gyfer defnyddio trethi i wella cymdeithas yng Nghymru.

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

Mark Drakeford  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

## Polisi trethi Cymru

1. O fis Ebrill 2019, bydd £5bn o refeniw trethi datganoledig a lleol yn cael ei godi a'i gasglu yng Nghymru i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus Cymru. Bydd y refeniw hwn yn dod o'r trethi Cymreig datganoledig newydd – y dreth trafodiadau tir (LTT) a'r dreth gwarediadau tirlenwi (LDT) – cyfraddau Cymreig y dreth incwm a threthi lleol (y dreth gyngor ac ardrethi annomestig).
2. Mae datganoli pwerau trethi yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru weithio gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru, llywodraeth leol, busnesau, gweithwyr proffesiynol ym maes trethi, trethdalwyr a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu agwedd neilltuol i Gymru at drethi. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i egluro sut y maent yn bwriadu defnyddio eu pwerau trethi a'r hyn y maen nhw'n disgwyl ei gyflawni.
3. Y cam cyntaf yn y broses hon oedd cyhoeddi fframwaith polisi trethi Llywodraeth Cymru a'r cynllun gwaith cysylltiedig ar gyfer y polisi trethi gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol.

### Fframwaith Polisi Trethi

4. Cafodd amcanion trethi strategol Llywodraeth Cymru eu cadarnhau yn fframwaith polisi trethi Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:
  - Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod ystod y pwerau trethi datganoledig o fis Ebrill 2019 yn galluogi'r pleidiau gwleidyddol yn y Cynulliad Cenedlaethol i roi dewis i bobl yng Nghymru ynglŷn â lefel y trethi a delir ac ansawdd a hyd a lled y gwasanaethau cyhoeddus datganoledig cysylltiedig
  - Mae'n bwysig bod lefel y trethi yn briodol ar gyfer yr amodau economaidd ar y pryd. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i beidio â chynyddu cyfraddau Cymreig y dreth incwm yn ystod tymor y Cynulliad hwn, a bydd yn ystyried cyfraddau treth, a'u heffaith ar y trethi Cymreig eraill, yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gynhyrchu digon o refeniw i gyllido gwasanaethau cyhoeddus, gan fod yn deg a chefnogi twf economaidd ar yr un pryd
  - Bydd Llywodraeth Cymru yn edrych ar y system drethi gyfan yng Nghymru, yn ogystal ag ystyried y system honno yng nghyd-destun system y DU, er mwyn ystyried effaith newidiadau ar aelwydydd ac unigolion yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu cymdeithas decach yng Nghymru, a bydd yn defnyddio'r system drethi i hybu tegwch a thwf economaidd
  - Gall trethi ddylanwadu ar ymddygiad a bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried a fyddai modd i'r trethi Cymreig newydd gael eu cyflwyno mewn ffordd effeithlon, i weithredu ochr yn ochr â dulliau polisi presennol neu newydd
  - Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu'r trethi Cymreig yng nghyd-destun ein pwerau deddfwriaethol er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau

- Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Awdurdod Cyllid Cymru weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, ac awdurdodau treth eraill y DU, i greu darlun mwy cynhwysfawr o'r modd y darperir gwasanaethau treth, ac o o gydymffurfiaeth a datblygiad polisi treth. Disgwylir i'r Awdurdod hefyd gyd-gysylltu gweithgarwch, lle y bo'n bosibl, er budd y trethdalwyr.

5. Roedd y fframwaith polisi trethi yn cadarnhau'r egwyddorion polisi trethi a fydd yn cael eu defnyddio wrth ystyried cynigion ar gyfer y polisi trethi.


### **Cynllun gwaith y polisi treth**

6. Roedd cynllun gwaith y polisi trethi, a gyhoeddwyd ar yr un pryd â'r fframwaith polisi trethi ym mis Mehefin 2017, yn nodi 13 o feysydd y mae Llywodraeth Cymru yn ymchwilio iddynt wrth benderfynu ar y syniadau i'w mabwysiadu mewn perthynas â pholisi trethi ac i gyflawni'r amcanion a nodir yn y fframwaith. Bydd rhai o'r camau hyn yn cael eu cwblhau yn 2017 ond bydd angen ystyriaeth hirdymor ar eraill.
7. Mae'r dadansoddiad yn y ddogfen hon yn rhoi'r diweddaraf am syniadau'r llywodraeth mewn perthynas â'r polisi trethi ar hyn o bryd, a'r cynnydd hyd yma. Drwy gyhoeddi'r ddogfen hon gyda'r Gyllideb ddrafft ar gyfer 2018-19, rydym yn cymryd y camau cyntaf tuag at sicrhau mwy o gysondeb rhwng y polisi trethi a'r Gyllideb yn y dyfodol – proses a fydd yn parhau yn y blynyddoedd sydd i ddod.
8. Mae'r adroddiad hwn ar y polisi trethi, y cyntaf mewn cyfres flynyddol ohonynt, yn rhoi'r diweddaraf am 12 o'r meysydd (mae'r 13eg yn cael ei ddatblygu gyda Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru a bydd yn eitem hirdymor ar gyfer 2017-18 a 2018-19<sup>1</sup>). Drwy roi cefndir pob un o'r meysydd hyn, ac adolygu'r dystiolaeth a ddaw i'r amlwg a, lle bo'n berthnasol, crynhoi unrhyw ganlyniadau cynnar, mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio ysgogi trafodaeth ac ennyn mwy o ddiddordeb.
9. Mae'r 12 o eitemau wedi'u rhestru ar y dudalen gynnwys. Er hwylustod, mae tri maes sy'n mynd i'r afael ag agweddau ar drethi lleol wedi cael eu cyflwyno gyda'i gilydd. Mae'r polisi trethi lleol yn cael ei newid fel rhan o'r ymarfer i ddiwygio trefniadau cyllido gwasanaethau lleol yn fwy eang. Bydd mwy o fanylion am ddiwygio cyllid llywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru yn cael eu darparu ynghyd â'r setliad llywodraeth leol 2018-19 ar 10 Hydref 2017.

---

<sup>1</sup> '13. O fis Hydref, gweithio gyda Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru i adolygu'r ffactorau economaidd-gymdeithasol a'r tueddiadau a allai effeithio ar sylfaen drethu Cymru, a'r ffactorau a allai helpu i dyfu'r sylfaen drethu yng Nghymru'.

Ffigur 1: Sut yr ariennir gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn 2019-20



Mae'r ffigurau'n berthnasol i'r amcanestyniadau ar gyfer 2019-10. Dim ond gwariant a ariennir gan refferniw a godir drwy drethi a'r grant bloc sydd wedi'i gynnwys yn y gwariant wedi'i ddatganoli.

# Adroddiad cynnydd ar gynllun gwaith y polisi trethi 2017

- 1) **Erbyn mis Hydref 2017, cyhoeddi'r cyfraddau a'r bandiau ar gyfer y dreth trafodiadau tir, gan gynnwys gordal y cyfraddau uwch, a'r cyfraddau ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi**

## Cefndir

10. Roedd Deddf Cymru 2014 yn darparu ar gyfer datganoli'r trethi Cymreig cyntaf ers bron i 800 mlynedd. Y dreth trafodiadau tir (LTT) a'r dreth gwarediadau tirlenwi (LDT) fydd y trethi cyntaf i gael eu datganoli i Gymru. Mae Deddf Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 a Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 yn darparu y bydd treth dir y dreth stamp a'r dreth tirlenwi yn cael eu disodli gan LTT a LDT, yn eu trefn, o fis Ebrill 2018.
11. Mae'n bwysig sicrhau bod cyfanswm lefel y dreth a delir gan unigolion a busnesau yn briodol i'r amodau economaidd ar y pryd. Bydd y cyfraddau treth yn cael eu pennu felly gan reoliadau cyn mis Ebrill 2018. Wrth bennu'r cyfraddau cyntaf ar gyfer y trethi Cymreig, mae'n bwysig rhoi sicrwydd i drethdalwyr. Mae cyhoeddi'r cyfraddau a'r bandiau yn cynnal y cydbwysedd rhwng yr angen i adlewyrchu'r amodau economaidd ar yr adeg y daw'r trethi i effaith, gyda'r angen i roi sicrwydd i drethdalwyr.
12. Bydd y referniw a gynhyrchir gan y ddwy dreth ddatganoledig newydd yn cael ei ddefnyddio'n uniongyrchol i gyllido gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan ddisodli rhan o'r cyllid y mae Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn gan Lywodraeth y DU. Drwy gyhoeddi'r cyfraddau treth ar yr un pryd â'r Gyllideb ddrafft bydd modd craffu ar benderfyniadau yn ymwneud â threthi a chyllid gyda'i gilydd.
13. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fabwysiadu agwedd deg a thryloyw tuag at drethi. Mae'r papur yn rhoi rhagor o fanylion yn Atodiad 1 ynghylch y materion a ystyriwyd wrth bennu'r cyfraddau treth ac mae'n cynnwys dadansoddiad pellach o'r effaith ar gyfer trethdalwyr a referniw.

## Tystiolaeth a dadansoddiad

14. Bydd trethi datganoledig yn helpu i gyllido gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, felly mae'r referniw a gynhyrchir gan y trethi yn ystyriaeth bwysig wrth bennu'r cyfraddau treth. Yn fras, bydd swm y referniw a gynhyrchir yng Nghymru gan dreth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi ar adeg datganoli'r trethi, a'r hyn y rhagwelir y byddai'r trethi hyn yn ei gynhyrchu ar gyfer blynyddoedd i ddod, yn cael ei dorri oddi ar gyfanswm y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru. Bydd y referniw a gynhyrchir gan LTT a LDT yn ariannu cyllideb Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol a bydd y cyfraddau trethi hyn yn helpu i benderfynu a fydd gan Lywodraeth Cymru lai, mwy neu'r un faint o gyllid yn gyffredinol. O ran gostwng cyllidebau Llywodraeth Cymru mewn termau real o ganlyniad i bolisi parhaus Llywodraeth y DU o gynt y cyllidol, cafodd y dull o bennu'r cyfraddau treth ei seilio ar yr egwyddor na ddylai gwasanaethau cyhoeddus gael llai o gyllid yn sgil datganoli trethi.
15. Mae rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd yn nod allweddol wrth bontio i'r trethi newydd. Felly, mae cyfraddau'r trethi blaenorol wedi bod yn ffactor perthnasol wrth bennu

cyfraddau'r trethi datganoledig. I roi sefydlogrwydd, mabwysiadwyd agwedd lle na ddylid newid cyfraddau'r trethi blaenorol yn fwy nag sydd ei angen i adlewyrchu amgylchiadau a blaenoriaethau Cymru.

16. Wrth bennu'r cyfraddau treth mae hefyd yn bwysig cadw'r cyd-destun ar gyfer gweithredu'r trethi hynny mewn cof. Mae'r ddwy dreth ddatganoledig - LTT a LDT - yn gweithredu mewn cyd-destun gwahanol iawn i'w gilydd. Rhaid ystyried cyd-destun pob treth yn unigol.
17. Yn achos LTT, y marchnadoedd eiddo preswyl ac eiddo amhreswyl sy'n darparu'r cyd-destun ar gyfer gweithredu'r dreth. Mae nifer y trafodiadau a phrisiau eiddo wedi bod o gymorth wrth bennu'r cyfraddau ar gyfer Cymru, yn ogystal â'r effaith y bydd y cyfraddau yn ei chael ar y farchnad. At hynny, mae lefel yr integreiddiad ag economi a marchnadoedd eiddo'r DU yn ehangach hefyd wedi dylanwadu ar yr agwedd a fabwysiadwyd tuag at bennu cyfraddau trethi. O dan y ddeddfwriaeth mae'n ofynnol i LTT fod yn dreth raddedig, felly bydd cyfraddau treth yn uwch ar gyfer eiddo pris uchel nac ar gyfer eiddo pris isel. Mae lefel y graddiad hefyd yn ystyriaeth bwysig a phenderfynwyd cynyddu'r graddiad hwnnw.
18. Treth amgylcheddol yw LDT, a'i nod yw dylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiadau amgylcheddol. Mae'n ceisio sicrhau bod y pris ar gyfer gwaredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi yn adlewyrchu'r gost amgylcheddol yn briodol, ac mae'n hyrwyddo dull mwy cynaliadwy o reoli gwastraff drwy annog rhagor o atal, ail-ddefnyddio, ailgylchu ac adfer gwastraff. Mae Cymru'n arwain y ffordd o ran polisi gwastraff ac mae LDT yn ysgogiad pwysig pellach i gefnogi polisiâu gwastraff Llywodraeth Cymru a chyflawni ein nod uchelgeisiol o ddyfodol diwastraff yng Nghymru. Mae'r nod o leihau gwarediadau tirlenwi yng Nghymru, yn ogystal â rhoi cysondeb, sicrwydd a sefydlogrwydd i fusnesau, wedi bod yn ystyriaeth allweddol wrth bennu'r cyfraddau.
19. Yn ogystal â hynny, mae Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 yn galluogi Awdurdod Cyllid Cymru i godi treth ar warediadau trethadwy sy'n cael eu gwneud mewn mannau ar wahân i safleoedd tirlenwi awdurdodedig (gwarediadau heb eu hawdurdodi). Mae hyn yn cael ei wneud i fod yn ysgogiad ariannol ac i roi mwy o elfen o risg ariannol i waredu gwastraff heb awdurdod, gan olygu ei fod yn opsiwn llai deniadol i'r rheini sy'n cael eu temtio i anwybyddu eu rhwymedigaethau amgylcheddol ac efadu trethi.
20. Mae Atodiad 1 y papur yn rhoi mwy o fanylion am yr ystyriaethau a gadwyd mewn cof wrth bennu'r cyfraddau treth.

### **Canlyniadau a champau nesaf**

21. Gan ystyried y ffactorau a amlinellwyd ym mharagraff 16, bydd cyfraddau a bandiau LTT fel a ganlyn:
22. Cyfraddau preswyl:

Trothwy pris	Prif gyfraddau preswyl
£0 - £150,000	0%
£150,000 - £250,000	2.5%
£250,000 - £400,000	5.0%
£400,000 - £750,000	7.5%
£750,000 - £1.5m	10.0%
£1.5m ac uwch	12.0%

23. I gynyddu graddiad y cyfraddau preswyl, mae'r pris eiddo isaf y mae treth yn daladwy arno yn uwch ar gyfer LTT na threth dir y dreth stamp. Drwy addasu'r cyfraddau a'r bandiau ar gyfer trafodiadau pris uwch, caiff referniw ei gynnal. Er mwyn pontio'n ddiraffferth i'r dreth newydd, mae'r gwahaniaeth rhwng cyfraddau LTT a'r cyfraddau treth dir y dreth stamp presennol wedi ei gadw'n gymharol fach.
24. Gyda'r prif gyfraddau preswyl hyn, rhagwelir na fydd 45% o drafodiadau yn agored ar gyfer LTT – cynnydd o'r ganran gyfatebol o dan system treth dir y dreth stamp. Yn gyffredinol, ni fydd prynwr tro cyntaf yn talu treth a bydd y prynwr cyffredin yn talu llai o dreth nac o dan dreth dir y dreth stamp. Bydd pob un sy'n prynu eiddo preswyl sy'n costio hyd at £400,000 yn talu'r un faint o dreth, neu lai o dreth, ag yr oedd o dan dreth dir y dreth stamp. Bydd tua 90% o drafodiadau preswyl a fyddai wedi cael eu trethu o dan dreth dir y dreth stamp yn talu'r un faint o dreth neu lai o dreth gyda'r LTT.
25. Ar gyfer eiddo preswyl ychwanegol, bydd y gyfradd uwch o dreth sy'n daladwy yn 3% arall ar ben y brif gyfradd preswyl ym mhob band – mae hyn union yr un fath â'r system bresennol treth dir y dreth stamp. Gan mai dim ond yn ddiweddar y cafodd y gyfradd uwch ei chyflwyno, ychydig o dystiolaeth a geir o'i heffaith yng Nghymru, felly penderfynwyd parhau'n gyson â threth dir y dreth stamp.

#### Ardrethi annomestig

Trothwy pris	Cyfraddau
£0 - £150,000	0%
£150,000 - £250,000	1%
£250,000 - £1m	5%
£1m ac uwch	6%

26. Mae mabwysiadu cyfradd dreth is na threth dir y dreth stamp ar gyfer aelwydydd amhreswyl y mae treth yn daladwy arnynt yn golygu bod cyfraddau amhreswyl LTT yn fwy graddedig. Er mwyn cynnal referniw, mae band uchaf newydd wedi cael ei ychwanegu. Gan adlewyrchu integreiddiad economi Cymru ag economi gweddill y DU ac i helpu i sicrhau bod y cyfnod pontio i'r dreth newydd mor ddiraffferth â phosibl, mae'r gwahaniaeth rhwng cyfraddau LTT a chyfraddau treth dir y dreth stamp yn gymharol fach.

#### Cyfraddau les amhreswyl:

Trothwy gwerth presennol net	Cyfraddau
£0 - £150,000	0%
£150,000 - £2m	1%
£2m ac uwch	2%

27. I adlewyrchu'r farchnad eiddo yng Nghymru, bydd cyfradd uchaf LTT yn gymwys o drothwy gwerth presennol net is na chyfradd uchaf treth dir y dreth stamp. Yn gyffredinol, dim ond i nifer cymharol fach o drafodiadau y mae'r gyfradd les amhreswyl yn gymwys, ac mae cyfraddau les yn is ar y cyfan yng Nghymru nac mewn rhannau o Loegr, felly ychydig iawn o drafodiadau fyddai'n talu'r gyfradd dreth uchaf yng Nghymru pe byddai'n gyson â threth dir y dreth stamp.
28. Yn achos pryniannau rhydd-ddaliadau a thrafodiadau sydd ag iddynt breimiymau les, rhagwelir na fydd 60% o drafodiadau trethadwy yn talu unrhyw dreth. Yn achos pryniannau rhydd-ddaliadau a thrafodiadau sydd ag iddynt breimiymau les, bydd prynwyr yn talu llai o dreth ar bob pryniant rhydd-ddaliad amhreswyl neu drafodiad ag iddo breimiymau lesddaliad pan fo'r pris yn is na £1.1m.

#### Cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi

29. Gan ystyried y ffactorau a amlinellwyd ym mharagraffau 17 ac 18 uchod, bydd cyfraddau LDT fel a ganlyn:

Cyfradd	2018-19	2019-20 <i>Cyfradd a Ragdybiwyd</i>
Safonol	£88.95	£91.70
Is	£2.80	£2.90
Gwarediadau heb eu hawdurdodi	£133.45	£137.55

30. Bwriedir i'r gyfradd safonol a'r gyfradd is aros yn gyson â chyfraddau treth y dreth dirlenwi ar gyfer dwy flynedd gyntaf LDT. Mae hyn yn rhoi cysondeb, sicrwydd a sefydlogrwydd i fusnesau ac yn lleihau'r risg y bydd gwastraff yn cael ei symud ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr.
31. Mae'r gyfradd ar gyfer gwarediadau heb eu hawdurdodi wedi ei pennu yn 150% o'r gyfradd safonol. Mae hyn yn adlewyrchu bod gwarediadau heb eu hawdurdodi yn cael mwy o effaith negyddol ar yr amgylchedd. Mae'n gymhelliad ariannol i beidio â gwaredu gwastraff yn ddiawdurdod ac mae'n helpu i sicrhau chwarae teg i fusnesau gwastraff dilys. Mae'n adlewyrchu y bydd cosbau a llog, y'u cymhwysid i weithredwr safle tirlenwi o dan amgylchiadau arferol, wedi cael eu hosgoi ac yn cydnabod costau cydymffurfio a gorfodi Awdurdod Cyllid Cymru.
32. Hyd yma, nid yw Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei chyfraddau ar gyfer y dreth dirlenwi yn 2019-20. Felly rhoddir cyfradd a ragdybiwyd yn y tabl uchod, sy'n cynyddu cyfraddau treth 2018-19 yn ôl rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI). Mae hyn yn unol â'r polisi sydd wedi'i ddatgan gan Lywodraeth y DU ar bennu cyfraddau'r dreth dirlenwi.

33. Un ffactor tyngedfennol wrth bennu'r cyfraddau treth ar gyfer LTT a LDT yw'r egwyddor na ddylai gwasanaethau cyhoeddus gael llai o gyllid yn sgil datganoli trethi. Bydd y cyllid mae Llywodraeth Cymru yn ei gael gan Lywodraeth y DU yn cael ei dorri i gyfrif am y refeniw trethi newydd y bydd Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn. Cytunwyd eisoes ar y dull ar gyfer penderfynu ar y gostyngiad ond adeg Cyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU y bydd maint y gostyngiad hwnnw'n cael ei bennu. Os bydd Llywodraeth y DU yn diwygio polisi treth dir y dreth stamp neu'r dreth dirlenwi yn y fath fodd a fydd yn effeithio ar refeniw trethi, bydd maint addasiad y grant bloc yn newid a bydd adnoddau net Llywodraeth Cymru hefyd yn newid. Os digwydd hyn, bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried a fydd y cyfraddau treth uchod yn dal i fod yn addas ac, os oes angen, gellir newid y cyfraddau.
34. Yn dilyn Cyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU 2017, bydd Llywodraeth Cymru yn gosod rheoliadau i ddod â'r cyfraddau treth i effaith o fis Ebrill 2018. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn craffu ar y rheoliadau hyn ac yn penderfynu arnynt. O fis Ebrill 2018, bydd LTT a LDT yn disodli treth dir y dreth stamp a'r dreth tirlenwi yng Nghymru. Bydd y cyfraddau treth newydd a nodir yn y rheoliadau yn gymwys.

## 2) Diwygio cyllid llywodraeth leol

35. Y dreth gyngor ac ardrethi annomestig yw'r ddwy dreth leol sy'n helpu i gyllido gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu cyflenwi i gymunedau lleol yng Nghymru. Mae'r polisi trethi lleol sy'n esblygu yn rhan annatod o broses ddiwygio gam wrth gam y fframwaith cyllid ehangach ar gyfer llywodraeth leol. Bydd papur trafod manylach, *Y Diweddaraf ynghylch Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol*, yn cael ei gyhoeddi ynghyd â'r setliad llywodraeth leol blynyddol ar 10 Hydref 2017.

### Cefndir

36. Mae fframwaith cyllid sy'n werth biliynau o bunnoedd yn sylfaen ar gyfer pob ffurf ar lywodraeth leol – cymysgedd cymhleth o gynghorau sir, y gwasanaeth heddlu, awdurdodau tân ac achub, cynghorau tref a chymuned, awdurdodau parciau cenedlaethol a chyrff llai. Cyrff ymreolaethol sy'n ffurfio llywodraeth leol, ac nid ydynt yn cael eu rhedeg gan Lywodraeth Cymru; maen nhw'n cael eu hethol yn ddemocrataidd ac maent yn uniongyrchol atebol i'w poblogaethau lleol. Mae'r trefniadau cyllid yn adlewyrchu hyn, ar ffurf system gyd-gysylltiedig o grantiau'r llywodraeth, refeniw sy'n cael ei godi'n lleol (gan gynnwys trethi lleol), cyllid cyfalaf, benthyca a buddsoddi.
37. Mae Ffigur 2 yn dangos y cyd-destun ehangach y mae trethi lleol yn rhan ohono. Gyda'i gilydd, mae'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig yn codi tua £2.4bn yn flynyddol, sy'n cynrychioli tua 27% o wariant refeniw blynyddol ar wasanaethau lleol, gan gynnwys addysg, gofal cymdeithasol, trafnidiaeth leol, darpariaeth tai, hamdden a rheoli gwastraff.
38. Mae newidiadau i un rhan o'r system gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar rannau eraill o'r fframwaith. Felly, mae angen sicrhau bod y pecyn ar gyfer diwygio cyllid llywodraeth leol yn holistaidd a bod atebolrwydd dros berfformiad gwasanaethau yn parhau'n glir. Ar 31 Ionawr 2017, amlinellwyd ein dull o ddiwygio'r ffordd mae llywodraeth leol yn gweithredu.<sup>2</sup> Ynghyd â'r ddogfen hon, rhyddhawyd datganiad gennym yn egluro ein bod yn bwriadu mabwysiadu dull cam wrth gam a threfnus o fynd i'r afael â'r newidiadau i gyllid llywodraeth leol, gan ddatblygu system a fydd yn diwallu anghenion y dyfodol.

### Tystiolaeth a dadansoddiad

39. Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd y Comisiwn Annibynnol ar Gyllid Llywodraeth Leol Cymru<sup>3</sup> ei gasgliadau ynglŷn â dulliau posibl o ddiwygio'r system gyllid ar gyfer llywodraeth leol. Cyn hyn, ystyriodd Comisiwn yr Alban ar Ddiwygio Trethi Lleol<sup>4</sup> newidiadau radical i gynllun a gweithrediad trethi lleol fel elfennau pwysig o'r cyllid sydd ar gael i wasanaethau lleol. Rydym yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael i ymchwilio i ddiwygio yng Nghymru. Yr her sy'n wynebu Llywodraeth Cymru yw bod angen cysoni llawer o wahanol safbwyntiau rhanddeiliaid mewn pecyn diwygio sy'n

<sup>2</sup> *Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad* a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2017.

<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/diwygio-lywodraeth-leol-cadernid-ac-adnewyddiad>

<sup>3</sup> *Uchelgais ar gyfer Newid - Anelu'n Uwch* a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016.


<http://www.cipfa.org/partners/independent-commission-on-local-government-finance-wales/final-report>

<sup>4</sup> *Just Change: A New Approach to Local Taxation* a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015.

<http://localtaxcommission.scot/download-our-final-report/>

canolbwyntio ar anghenion y dinesydd. Rhaid inni hefyd gydbwysu'r dyheadau â'r gost a'r risg sy'n gysylltiedig â gwneud newidiadau, gan sicrhau nad ydym yn diystyru cryfderau'r trefniadau presennol.

Ffigur 2: Y trefniadau cyllid ar gyfer gwasanaethau leol



Ffynhonnell: Datganiadau blynyddol llywodraeth leol, StatsCymru

## Gwneud y dreth gyngor yn decach

40. Mae *Symud Cymru Ymlaen*, Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, a chynllun gwaith y polisi trethi yn cynnwys ymrwymiad i weithio gyda llywodraeth leol i adolygu'r dreth gyngor a dod o hyd i ffyrdd o'i gwneud yn decach. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut y mae'r dreth wedi'i chynllunio a sut y mae'n gweithredu. Ein prif nod yw gwneud y system newydd yn fwy graddedig drwy edrych ar y newidiadau a fyddai o fudd i'r aelwydydd hynny sy'n llai galluog i dalu eu biliau treth gyngor.
41. Mae amryw o opsiynau yn cael eu hystyried, gan gynnwys newid y perthynoledd trethi a godir rhwng naw band treth gyngor; ymchwilio i ffyrdd o wella cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor; ac ymdrechu o'r newydd i sicrhau bod y rheini sy'n gymwys ar gyfer y cynllun yn elwa arno. Mae gwerth eiddo at ddibenion y dreth gyngor yng Nghymru yn seiliedig ar y gwerthoedd a bennwyd ar 1 Ebrill 2003. Mae hyn yn fwy diweddar nag yn Lloegr neu'r Alban (lle mae'r dreth gyngor yn cael ei chodi ar sail y gwerthoedd eiddo a bennwyd ym 1991), ond yn dylanwadu hefyd ar ein gallu i wella ac i sicrhau tegwch. Rydym yn ymchwilio i'r arfer prisio eiddo yn fwy cyffredinol, o safbwynt tegwch ond hefyd o safbwynt ei roi ar waith yn ymarferol a sicrhau sefydlogrwydd referniw yn y dyfodol.
42. Mae ein hymrwymiad i wella tegwch hefyd yn cynnwys adolygu'r gweithdrefnau y gweinyddir a rheolir y dreth gyngor drwyddynt. Cynhaliom ymchwil ddechrau'r flwyddyn i ystyried beth y gellir ei wneud i wella'r modd y cesglir y dreth a hefyd rheoli ôl-daliadau<sup>5</sup>.

## System ardrethi annomestig fwy effeithiol

43. Cynhaliodd Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) ymarfer ailbrisio eiddo ar gyfer ardrethi annomestig yn 2015. Mae ymarferion ailbrisio yn cael eu cynnal yn rheolaidd i ailddosbarthu'r swm o dreth sy'n daladwy ar draws y sylfaen drethu, gan adlewyrchu'r newidiadau yn amodau'r farchnad eiddo ers i'r ymarfer diwethaf gael ei gynnal yn 2010.
44. Mae'n iawn bod trethdalwyr annomestig yn gallu herio gwerth ardrethol eu heiddo os oes ganddynt reswm i amau nad yw'n gywir. Ar hyn o bryd, mae mwy na 40% o drethdalwyr annomestig yn apelio yn erbyn y gwerth a bennwyd ar gyfer eu heiddo, ond nid yw'r gwerthoedd ardrethol yn cael eu newid yn achos dau draean o'r apeliadau hynny. Credir bod cyfran sylweddol o'r apeliadau hynny yn cael eu gwneud ar y gobaidh y byddant yn llwyddiannus, ac mae hyn yn arwain at broses gostus sy'n defnyddio llawer o adnoddau. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno'r broses Gwirio, Herio, Apelio y mae'n ystyried a fydd yn galluogi Asiantaeth y Swyddfa Brisio i reoli'r llif o apeliadau yn well yn Lloegr. Credir y bydd y broses yn sicrhau mwy o gywirdeb o ran data ac yn annog trethdalwyr annomestig i wneud

---

<sup>5</sup> Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 'Dulliau awdurdodau lleol o ymdrin ag adennill dyledion y dreth gyngor yng Nghymru', a gyhoeddwyd 28 Medi 2017. <http://gov.wales/statistics-and-research/local-authorities-approaches-council-tax-debt-recovery/?skip=1&lang=cy>

penderfyniadau deallus ynglŷn â'r gwahanol gamau o apêl. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried a fyddai agwedd debyg neu ddiwygio'r broses apelio mewn ffyrdd eraill yn fwy buddiol i drethdalwyr annomestig yng Nghymru.

45. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo hefyd i helpu awdurdodau i ddelio ag achosion o dwyll ac osgoi trethi mewn perthynas ag ardrethi annomestig. Drwy sicrhau bod y cyfraddau cywir yn cael eu talu, rhoddir sefydlogrwydd i drethdalwyr annomestig wrth leihau'r potensial o ysgwyddo atebolrwydd wedi'i ôl-ddyddio. Nid yw'n hysbys ar hyn o bryd faint o achosion o osgoi talu trethi a geir yng Nghymru, boed hynny'n fwriadol neu'n anfwriadol, ac mae angen ymchwilio ymhellach i'r mater. Mae cefnogi cydymffurfiaeth, a mabwysiadu agwedd gadarn at achosion o osgoi talu trethi, yn bolisi strategol allweddol i Lywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau treth ar draws pob un o'r bum treth Gymreig.

#### Cymorth wedi'i dargedu'n well ar gyfer busnesau bach

46. Roedd ein Rhaglen Lywodraethu a'n cynllun gwaith ar gyfer y polisi trethi yn cynnwys ymrwymiad i adolygu rhyddhad ardrethi busnesau bach (SBRR), a datblygu trefniadau parhaol o 2018 ymlaen. Cyflwyno cynllun sy'n targedu cymorth at y busnesau hynny a fyddai'n elwa fwyaf yw'r nod. Dylai rhyddhad ardrethi annomestig hefyd gefnogi amcanion ehangach Llywodraeth Cymru, yn ogystal â diogelu'r sylfaen drethu a'r refeniw a godir i gyllido gwasanaethau lleol. Wrth ddatblygu cynllun newydd, rydym yn ceisio lleihau'r baich gweinyddol ar drethdalwyr annomestig ac awdurdodau bilio, gan gyfyngu hyd eithaf posibl ar y cyfleoedd i gamddeffnyddio'r system.

#### Gweinyddu trethi lleol

47. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried yn barhaus yr ystod o weithdrefnau sy'n gysylltiedig â gweinyddu trethi. Bydd goblygiadau gweinyddol yn deillio o ddiwygio'r dreth gyngor, lleihau'r dreth gyngor, ardrethi annomestig a SBRR. Mae'n allweddol bod dulliau rhannu gwybodaeth yn gwella er mwyn gweinyddu trethi'n effeithiol.

#### Helpu i ddiwygio llywodraeth leol

48. Yn *Symud Cymru Ymlaen*, rydym yn ymrwymo i adolygu fframwaith cyllid llywodraeth leol i helpu cynghorau i ddod yn fwy cynaliadwy a hunan-gynaliadwy. Bydd y cynigion ar gyfer diwygio a'r gwaith rydym yn ei wneud gyda'n gilydd i ddatblygu bargeinion dinesig ac ysgogi twf yn helpu i sicrhau twf economaidd, cadernid ariannol a gwasanaethau gwell. O ganlyniad i ddatblygu bargeinion dinesig a thwf, mae'r Comisiwn Annibynnol ar Gyllid Llywodraeth Leol Cymru a rhai awdurdodau lleol wedi galw am fabwysiadu dull gwahanol o ddsbarthu refeniw ardrethi annomestig.
49. Mae newidiadau i bolisi trethi yn cael effaith uniongyrchol ar ddsbarthu cyllid craidd drwy'r setliadau llywodraeth leol blynyddol. Gallai rhoi mwy o bwyslais ar weithio'n rhanbarthol yn y blynyddoedd sydd i ddod hefyd newid patrymau gwariant mewn awdurdodau lleol. Mae'r fformiwla cyllido ar gyfer setliadau

blynyddol awdurdodau lleol a'r heddlu wedi dod yn fwy cymhleth ers iddynt ddod i fodolaeth. Byddai'n werth ystyried a ellid ei symleiddio neu newid y fethodoleg at ddibenion gweithredu a bod yn dryloyw. Mae'r is-grŵp dosbarthu, sy'n is-grŵp i Gyngor Partneriaeth Cymru, yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r fethodoleg gyllido.

## **Canlyniadau a chamau nesaf**

### Mwy o degwch yn y system dreth gyngor

50. Yn ystod hydref 2017, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wella'r sail dystiolaeth ac yn asesu effaith y cynigion cyn gwneud unrhyw newidiadau. Bydd yn gweithio gyda rhanddeiliaid o'r amrywiol fforymau ymgynghori a thrwy weithgor sy'n cael ei arwain gan arbenigwyr. Bwriedir ymgynghori ar y cynigion cychwynnol i wneud y dreth gyngor yn decach ddechrau 2018.

### System ardrethi annomestig fwy effeithiol

51. Daeth set o werthoedd ardrethol wedi'i diweddarau i effaith ar draws Cymru a Lloegr o 1 Ebrill 2017. Bu Asiantaeth y Swyddfa Brisiu mewn cysylltiad â'i randdeiliaid a busnesau ynglŷn â'r ailbrisiu. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu rhyddhad ardrethi trosiannol a rhyddhad ardrethi'r stryd fawr i fusnesau cymwys i'w cynorthwyo i bontio i'r trethi datganoledig fel rhan o becyn o ryddhad blynyddol gwerth £210m.
52. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud newidiadau cychwynnol i weithrediad Tribiwnlys Prisiu Cymru a bydd yn lansio ymgynghoriad ar gynigion i newid y system apelio, er mwyn gwella effeithiolrwydd a'i gwneud yn haws i drethdalwyr annomestig ei defnyddio.
53. Mewn perthynas ag osgoi ardrethi annomestig, mae gweithgor o randdeiliaid llywodraeth leol ac arbenigwyr trethi wedi cael ei sefydlu i rannu profiadau o weithgarwch osgoi trethi ac edrych ar y rhwystrau i ymchwilio i hyn yn llwyddiannus. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori yn hydref 2017 ar becyn o fesurau sy'n cynnwys pwerau archwilio eiddo a newid y meini prawf cymhwysedd ar gyfer rhyddhad ac esemptiadau.

### Cymorth wedi'i dargedu'n well ar gyfer busnesau bach

54. Bydd ymgynghoriad ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllun SBRR parhaol yn cau ar 13 Hydref<sup>6</sup>. Mae'n trafod amryw o ddiwygiadau, gan gynnwys:

---

<sup>6</sup>Sicrhau toriad treth i fusnesau bach: Cynllun rhyddhad ardrethi newydd ar gyfer busnesau bach yng Nghymru Cyhoeddwyd 21 Gorffennaf 2017.

<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/sicrhau-toriad-treth-i-fusnesau-bach-cynllun-rhyddhad-ardrethi-newydd-ar-gyfer>

- Cyfyngu ar y rhyddhad sydd ar gael i fusnesau sy'n meddiannu mwy nag un eiddo bach, er enghraifft, cadwyni cenedlaethol mawr
  - Eithriadau o SBRR ar gyfer gweithgarwch busnes nad yw'n gyson ag amcanion Llywodraeth Cymru
  - Dychwelyd at lefel safonol o ryddhad ar gyfer eiddo manwerthu yn hytrach na'r rhyddhad uwch presennol
  - Ail-fuddsoddi'r refeniw a ryddheir o'r cynigion uchod i roi lefel uwch o ryddhad i fusnesau bach drwy ddiwygio'r meini prawf cymhwysedd, er enghraifft trothwyon gwerthoedd ardrethol
  - Targedu cymorth at sectorau penodol sy'n helpu i fodloni amcanion Llywodraeth Cymru, er enghraifft ein hymrwymiad i roi 30 o oriau o ofal plant di-dâl i rieni sydd o oed gweithio sydd â phlant tair i bedair mlwydd oed.
55. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i phartneriaid i roi goblygiadau ymarferol y cynigion ar brawf. Yn dilyn y newidiadau cychwynnol yn 2018, bydd y cynllun parhaol yn cael ei ddatblygu'n barhaus gan fod amryw o ddiwygiadau posibl y bydd angen mwy o amser i ymchwilio iddynt a'u hasesu wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad. Mae'r syniadau hynny yn cynnwys rhyddhad ag iddo gyfyngiad amser wrth i fusnesau sy'n tyfu ddod yn fwy hunan-gynaliadwy, a gwneud mwy hefyd o bosibl i helpu busnesau sy'n cefnogi blaenoriaethau cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol Llywodraeth Cymru.

#### Gweinyddu trethi lleol

56. Er mwyn sicrhau nad oes perygl y bydd y dreth gyngor, y mae ei chyfraddau casglu wedi bod yn dda ers dau ddegawd, yn dod yn llai effeithiol yn sgil ei diwygio, bydd Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i oblygiadau'r newidiadau ar weinyddu trethi. Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal i'r perwyl hwn yn 2018 a bydd gwaith yn cael ei wneud hefyd gyda grwpiau rhanddeiliaid.
57. Cafodd porth rhannu gwybodaeth newydd rhwng awdurdodau lleol ac Asiantaeth y Swyddfa Brisió ei sefydlu ym mis Ebrill 2017. Nod y porth newydd yw lleihau'r baich gweinyddol ar drethdalwyr, sy'n gorfod darparu gwybodaeth debyg i wahanol sefydliadau. Bydd y porth hefyd yn helpu awdurdodau bilio i gasglu data ac ymchwilio i dwyll.

#### Helpu i ddiwygio llywodraeth leol

58. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda llywodraeth leol i asesu pa mor fuddiol fyddai mabwysiadu dull gweithredu "cyfran o'r elw". Gallai dull o'r fath ganiatáu i awdurdodau lleol weithio'n rhanbarthol i gadw cyfran o'r ardrethi annomestig atodol a gesglir lle ceir twf economaidd gwirioneddol yn sgil y camau gweithredu a gymerir ar y cyd. Fel cam cychwynnol, rydym wedi

gwahodd llywodraeth leol i baratoi cynigion sy'n gweithio i bob rhanbarth gan sicrhau hefyd fod risgiau a chyfnewidioldeb y ffrwd gyllido yn cael eu rheoli.

59. Wrth inni ddatblygu'r diwygiadau ag iddynt oblygiadau o ran dosbarthu'r setliad llywodraeth leol blynyddol, byddwn yn trafod unrhyw newidiadau posibl sydd eu hangen i'r fethodoleg gyda llywodraeth leol drwy'r grŵp dosbarthu, ac yn cytuno arnynt.

#### Ymchwilio i'r posibilrwydd ar gyfer diwygio hirdymor

60. Mae nifer o adolygiadau eang eu hystod wedi'u cynnal ar sut y dylid cyllido llywodraeth leol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i ystyried a allai gwahanol dulliau o godi treth ar eiddo annomestig, megis rhyw fath o dreth yn seiliedig ar werth tir, fod o fudd i Gymru. Mae yna ymchwil ddamcaniaethol sy'n awgrymu y gallai dulliau eraill o godi incwm o eiddo fod yn fwy effeithlon yn economaidd ac yn fwy blaengar. Fodd bynnag, mae goblygiadau gweinyddol gwahanol gynlluniau trethi wedi bod yn rhwystr i newid yn y gorffennol. Ymchwilir yn ystod y cam cyntaf yn 2018 i ddichonoldeb defnyddio dull seiliedig ar dreth gwerth tir yn y dyfodol fel ffordd o godi refeniw ardrethi annomestig yng Nghymru.
61. Gan weithio gyda'r grwpiau ymgynghorol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu asesu'r posibiliadau fel bod modd cyflwyno amryw o sefyllfaoedd profedig yn barod ar gyfer etholiadau nesaf y Cynulliad Cenedlaethol.

### 3) Parhau i ddadlau'r achos dros ddatganoli'r Doll Teithwyr Awyr a datblygu ymhellach y sail dystiolaeth dros wneud hynny

#### Cefndir

62. Toll gartref yw'r doll teithwyr awyr (APD) sy'n cael ei chodi ar gludo teithwyr trethadwy ar awyren drethadwy o faes awyr yn y DU<sup>7</sup>. Mae APD yn cael ei chodi ar weithredwr yr awyren ac mae swm y dreth yn dibynnu ar y gyrchfan derfynol ac ar y dosbarth y bydd y teithiwr trethadwy yn teithio ynddo<sup>8</sup>. Mae tabl un yn crynhoi cyfraddau presennol y DU. Amcangyfrifir bod APD yn codi £10m yng Nghymru, gan gynnwys tua £1m o hediadau pellter hir uniongyrchol (cyrchfannau sy'n fwy na 2,000 o filltiroedd o Lundain).

**Tabl 1: Cyfraddau'r doll teithwyr awyr**

<b>Bandiau cyrchfannau a phellter o Lundain</b>	<b>Cyfradd is (y dosbarth teithio isaf ar awyren)</b>	<b>Cyfradd safonol (pob dosbarth teithio arall)</b>	<b>Cyfradd uwch (ar gyfer teithio mewn awyren â llai na 19 o deithwyr)</b>
Band A (1-2,000 o filltiroedd) 'hediad pellter byr'	£13	£26	£76
Band B (2,000 o filltiroedd a mwy) 'hediad pellter hir'	£76	£150	£450

63. Argymhellodd Comisiwn Holtham yn 2010 y dylid datganoli APD i Gymru. Fodd bynnag, argymhelliad Comisiwn Silk Llywodraeth y DU yn 2012 oedd datganoli APD yn achos hediadau pellter hir uniongyrchol yn gyntaf, cyn datganoli'n llawn fel rhan o waith Llywodraeth y DU yn y dyfodol ar drethi hedfan.
64. Hyd yma, mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod datganoli APD i Gymru. Gwrthododd Llywodraeth y DU argymhelliad Comisiwn Silk gan ddweud: "Having now given this recommendation careful consideration, the government is not convinced by the case for devolving APD to Wales. In particular, HMRC published a report in autumn 2012 highlighting that different rates either side of the Wales-England border would be likely to redistribute passengers between airports rather than significantly increasing the overall demand within the UK."
65. Gwnaed hynny er gwaetha'r ffaith bod Comisiwn Silk wedi adolygu'r dystiolaeth ar yr effaith gystadleuol bosibl ac wedi dod i'r casgliad: "Pe byddai TTA yn cael ei datganoli a'i gostwng wedyn yng Nghymru, byddai hyn yn golygu bod teithwyr o feysydd awyr yng Nghymru'n talu pris llai. Gellid ystyried bod hyn yn ystumiad economaidd sy'n creu sefyllfa annheg. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o wledydd tramor am y ffactorau sy'n dylanwadu ar y

<sup>7</sup> Mae diffiniadau i'w gweld ar wefan Llywodraeth y DU: <https://www.gov.uk/guidance/air-passenger-duty>

<sup>8</sup> Er mai'r cwmni hedfan sy'n talu'r doll, mae'n cael ei hysgwyddo hefyd gan y cwsmer fel rhan o'r pris y mae'n ei dalu am ei docyn.

dewis o faes awyr mewn lleoliadau lle y mae nifer o feysydd awyr yn dangos bod ffactorau heblaw pris fel amseroedd cyrraedd meysydd awyr, oedi mewn meysydd awyr ac amlder teithiau hedfan yn ffactorau pwysig wrth benderfynu'r dewis o faes awyr ac mai amseroedd cyrraedd meysydd awyr yw'r prif ffactor. Er bod pris yn bwysig, nid yw'n ymddangos ei fod yn ffactor tyngedfennol wrth benderfynu'r dewis o faes awyr."

66. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth y DU wedi cytuno ar ddatganoli APD i'r Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd APD yn cael ei datganoli'n llawn yn yr Alban o fis Ebrill 2018<sup>9</sup> ac mae APD wedi'i datganoli yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer hediadau pellter hir uniongyrchol. Safbwynt Llywodraeth Cymru o hyd yw nad oes unrhyw reswm pam y dylai Cymru gael ei thrin yn wahanol i'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill. Ar y lleiaf, ac yn unol â sefyllfa Gogledd Iwerddon, dylid datganoli APD ar gyfer hediadau pellter hir o feysydd awyr yng Nghymru.
67. Yn yr Alban, bydd APD yn cael ei disodli gan y dreth ymadawiadau awyr (*'air departure tax'*) ym mis Ebrill 2018. Mae'r cyfraddau a'r bandiau ar gyfer y dreth newydd yn cael eu cyhoeddi yn hydref 2017, fodd bynnag mae Llywodraeth yr Alban wedi dweud ei bod yn ceisio gostyngiad o 50% mewn ADT ar y sail y byddai hynny'n helpu i sefydlu llwybrau newydd, gwella cysylltedd i fusnesau a helpu i greu twf cynaliadwy.

### Tystiolaeth a dadansoddiad

68. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i baratoi'r achos o blaid datganoli APD i Gymru, gan gyflwyno tystiolaeth i adolygiad diweddaraf Trysorlys Ei Mawrhydi o APD yn haf 2015<sup>10</sup>. Mewn cyferbyniad â sefyllfa Llywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai datganoli APD o fudd i unigolion a busnesau yng Nghymru ac y byddai'n cefnogi mwy o fynediad yn Lloegr, yn enwedig yn y De-orllewin, at farchnadoedd rhyngwladol. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan yr un dadansoddiad gan HMRC<sup>11</sup> a amlygwyd yn ymateb Llywodraeth y DU i'r Comisiwn Silk. Mae'r dadansoddiad hwnnw yn dangos y byddai gostwng pris hediadau o Faes Awyr Caerdydd i gyfateb â chyfradd gyfredol APD yn cynyddu nifer y teithwyr o Faes Awyr Caerdydd a Maes Awyr Bryste gyda'i gilydd o 46%.
69. Mae'n ffaith gydnabyddedig bod meysydd awyr sy'n cynnig mynediad at farchnadoedd byd-eang allweddol yn dod â budd economaidd sylweddol ar draws yr economi<sup>12</sup>. Mae busnesau yn gwerthfawrogi cael mynediad parod at

<sup>9</sup> Comisiwn Calman oedd y cyntaf i argymhell y dylid datganoli APD, cyn i Gomisiwn Smith wneud yr un fath.

<sup>10</sup> Papur trafod Trysorlys EM ar yr opsiynau ar gyfer cefnogi meysydd awyr rhanbarthol Lloegr rhag effeithiau'r doll teithwyr awyr:

<https://www.gov.uk/government/publications/discussion-paper-on-options-for-supporting-english-regional-airports-from-the-impacts-of-air-passenger-duty-devolution>

<sup>11</sup> HMRC, Modelling the impact of price differentials at UK Airports

<https://www.gov.uk/government/publications/modelling-the-effects-of-price-differentials-at-uk-airports>

<sup>12</sup> Er enghraifft, gweler Oxera (2009) *What is the Contribution of Aviation to the UK economy?* ac Oxford Economics (2011) *Economic Benefits from Air Transport in the UK*.

gysylltiadau trafnidiaeth rhyngwladol ac felly maen nhw'n dewis lleoliadau â mynediad at gysylltiadau o'r fath. Mae hedfan hefyd yn allweddol er mwyn helpu i dyfu'r economi ehangach gan ei fod yn hwyluso cludiant nwyddau a gwasanaethau, gweithwyr a thwristiaid, ac yn denu buddsoddiad a syniadau<sup>13</sup>.

70. Mae maes awyr â chysylltiadau da yn denu buddsoddiad uniongyrchol o dramor ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol sy'n lledu ymhellach ac yn gwella gallu cynhyrchiol yr economi. Felly, mae meysydd awyr sy'n ffynnu yn chwarae rhan i ddatblygu dinasoedd sy'n economaidd-lewyrchus drwy annog effeithiau crynodrefi, sy'n arwain at fuddion sy'n dod yn fwyfwy pwysig i ddinasoedd ac ardaloedd ehangach. Mae cysylltiadau â chrynodrefi eraill yn gallu helpu i ddwysáu marchnadoedd llafur a chyfalaf, yn ogystal â chynyddu'r gystadleuaeth ac arwain at fwy o arloesi.
71. Mae fframwaith trethi Llywodraeth Cymru yn datgan yn glir y dylai polisiâu treth Llywodraeth Cymru gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru, yn arbennig o ran cefnogi swyddi a thwf. Byddai datganoli APD yn gyson â chyfrifoldeb Llywodraeth Cymru dros ddatblygu economaidd. Ar adeg pan fo Llywodraeth Cymru (yn ogystal â Llywodraeth y DU) yn gobeithio meithrin cysylltiadau economaidd mwy cadarn â marchnadoedd byd, bydd penderfyniad Llywodraeth y DU i beidio â datganoli APD yn cael effaith ar ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddenu mewnfuddsoddiad newydd a chefnogi allforion o Gymru.
72. I helpu i lywio'r ddadl, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu tystiolaeth annibynnol i effaith bosibl datganoli APD i Gymru. Nod yr ymchwil annibynnol hon yw ymchwilio o'r newydd i'r farchnad arfaethedig, ac i oblygiadau cystadleuol ac economaidd gweithredu APD. Bydd yn cael ei chyhoeddi yn hwyrach yn yr hydref.

### **Canlyniadau a chamau nesaf**

73. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddadlau y dylid datganoli APD ac mae'n gweithio gyda Maes Awyr Caerdydd a rhanddeiliaid i ddatblygu'r sail dystiolaeth ymhellach i'w chyflwyno i Lywodraeth y DU. Yng nghrynodeb Llywodraeth y DU o'r ymatebion i'w phapur trafod ar yr opsiynau ar gyfer cefnogi meysydd awyr rhanbarthol yn Lloegr rhag effeithiau datganoli APD<sup>14</sup> ymrwymodd i barhau i gydweithio'n agos â rhanddeiliaid lleol i drafod unrhyw dystiolaeth neu ddadansoddiad pellach perthnasol. Mae Llywodraeth Cymru am weithio gyda Llywodraeth y DU i ystyried y dystiolaeth annibynnol sydd ar gael iddynt.
74. Nid oes unrhyw reswm cryf dros beidio â datganoli APD i Gymru pan ei bod eisoes wedi'i datganoli i'r Alban ac, yn achos hediadau pellter hir uniongyrchol, i Ogledd Iwerddon hefyd. Nid oes angen deddfwriaeth sylfaenol

<sup>13</sup> Comisiwn Meysydd Awyr, Papur Trafod 02 Aviation *Connectivity and the Economy*

<sup>14</sup> Papur trafod Trysorlys EM ar yr opsiynau ar gyfer cefnogi meysydd awyr rhanbarthol Lloegr rhag effeithiau datganoli'r doll teithwyr awyr: Crynodeb o ymatebion [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/576225/air\\_passenger\\_duty\\_devolution\\_responses\\_web.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/576225/air_passenger_duty_devolution_responses_web.pdf)

newydd gan Lywodraeth y DU ar gyfer datganoli APD. Gellir datganoli drwy is-ddeddfwriaeth<sup>15</sup> a byddwn yn annog Llywodraeth y DU i gyflwyno is-ddeddfwriaeth i ddatganoli i Gymru yr APD ar gyfer hediadau pellter hir, a hynny cyn gynted â phosibl.

---

<sup>15</sup> Mae'r Papur Gorchymyn ar gyfer Deddf Cymru 2014 yn dweud y gellid defnyddio'r pŵer at ddau ddiben: Galluogi Llywodraeth Cymru i gyflwyno trethi newydd penodol yng Nghymru, gyda chytundeb dau Dŷ'r Senedd a'r Cynulliad; neu ganiatáu i Lywodraeth y DU ddatganoli trethi presennol neu newydd y DU ymhellach, eto gyda chytundeb dau Dŷ'r Senedd a'r Cynulliad Cenedlaethol.

#### 4) Ymchwilio i weld a allai'r system drethi ddatganoledig fod yn gymhelliad ar gyfer tai sy'n fwy effeithlon o ran ynni

##### Cefndir

75. Mae Deddf Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 yn sefydlu treth newydd ar drafodiadau tir i ddisodli treth dir y dreth stamp o fis Ebrill 2018. Mae'r Ddeddf hon yn gweithredu fel pŵer gwneud rheoliadau sy'n galluogi Cymru i lunio rhyddhadau newydd. Yn ystod hynt y Bil, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ymrwymiad i ymchwilio ymhellach i weld a allai system drethi ddatganoledig helpu i fod yn gymhelliad ar gyfer tai sy'n effeithlon o ran ynni.
76. Roedd y fframwaith polisi trethi yn dweud bod angen ystyried unrhyw ryddhad newydd ar gyfer trethi datganoledig yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni'r amcanion polisi y mae Llywodraeth Cymru'n dymuno eu gweld. Dylai hefyd fod yn fforddiadwy ac ni ddylai greu cyfleoedd i osgoi trethi. Yn y dyfodol, bydd y dull polisi ar gyfer newid rhyddhadau neu gyflwyno rhyddhadau newydd yn adlewyrchu agwedd Llywodraeth Cymru tuag at ystyried trethi newydd. Mae hyn yn golygu proses glir a cham casglu tystiolaeth, sy'n cynnwys sicrhau bod trethi newydd arfaethedig yn cael eu halinio ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru, eu bod yn gost-effeithiol a'u bod yn cyrraedd y targed polisi arfaethedig.
77. Mae ysgogiadau a chynlluniau i'w cael eisoes yng Nghymru sy'n gymhelliad ar gyfer defnyddio ynni'n effeithlon mewn tai, fodd bynnag mae'r rhain wedi'u targedu'n bennaf at aelwydydd incwm isel. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Dyletswydd statudol i gael gwared ar dlodi tanwydd, i'r graddau y bo hynny'n ymarferol bosibl, ym mhob aelwyd yng Nghymru erbyn 2018
  - Rhaglen flaenllaw Llywodraeth Cymru, Cartrefi Clyd, sy'n canolbwyntio ar wella effeithlonrwydd ynni aelwydydd incwm isel sy'n agored i niwed sydd mewn perygl o dlodi tanwydd
  - Safon Ansawdd Tai Cymru, sy'n mynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni tai cymdeithasol drwy ei gwneud yn ofynnol i bob tŷ cymdeithasol sy'n bodoli eisoes gael sgôr effeithlonrwydd ynni o EPC D neu uwch
  - Y Cynllun Benthyciadau Gwellu Cartrefi, sef cynllun 15 mlynedd yn y DU a gyflwynir gan awdurdodau lleol yng Nghymru, y gellir ei ddefnyddio i osod gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref.
78. Rhaid ystyried effeithlonrwydd ynni yn y sector preswyl yng nghyd-destun helpu i drawsnewid yn gymdeithas garbon isel hefyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno fframwaith statudol drwy Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i leihau allyriadau yng Nghymru o 80% yn 2050 o'i gymharu â'r gwaelodlin.

##### Tystiolaeth a dadansoddiad

79. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymchwilio a oes angen ymyriad sy'n seiliedig ar drethi i gyd-fynd â'r ysgogiadau presennol ar gyfer cymell tai sy'n effeithlon o ran ynni. Mae cyfranwyr o bob rhan o'r sector wedi bwydo i'r gwaith hwn

gwaith hwn ac mae'n canolbwyntio ar ddeall y sail dystiolaeth bresennol a nodi a oes yna achos dros newid. Mae dadansoddiad wedi'i gynnal hefyd o gynlluniau presennol a chynlluniau'r gorffennol ar draws y DU ac yn rhyngwladol lle mae trethi wedi cael eu defnyddio fel cymhelliad ar gyfer tai sy'n effeithlon o ran ynni.

### **Canlyniadau a champau nesaf**

80. Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi cymorth ariannol sylweddol i'r sector preswyl i gefnogi a hwyluso gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni. Mae'r cymorth hwn wedi'i dargedu at aelwydydd incwm isel yn bennaf.
81. Yn ôl y dystiolaeth gychwynnol a gasglwyd, mae yna achos dros gymryd camau pellach i ysgogi gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni mewn eiddo preswyl, yn arbennig yn y sector sy'n gallu talu. Fodd bynnag, daethpwyd i'r casgliad mai'r flaenoriaeth fyddai grantiau wedi'u targedu'n well a chyfathrebu gwell gan y llywodraeth er mwyn mabwysiadu dull cydgysylltiedig sy'n arwain at newid hirdymor. Yn ogystal â hynny, dywedwyd hefyd fod angen dadansoddiad manylach yn y maes hwn.
82. Bydd dadansoddiad manylach o'r dystiolaeth bresennol yn y maes cymhleth hwn yn parhau. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad parhaus o effeithiolrwydd cynlluniau presennol a newydd yn y DU ac yn rhyngwladol. Bydd angen casglu'r dystiolaeth hon yng nghyd-destun cefnogi'r trawsnewid i fod yn gymdeithas garbon isel.
83. Byddwn yn parhau i ddadansoddi pob ysgogiad posibl ar gyfer hyrwyddo agwedd at ddarparu tai sy'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon, gan gynnwys trethi. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu yng nghyd-destun yr ymrwymiad a wnaed gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ym mis Mehefin i bennu cynigion yn yr hydref i gynyddu gweithgarwch yng nghyd-destun tai effeithlon o ran ynni. Bydd y gwaith hwn yn ymchwilio i ymestyn a chyflymu buddsoddiad yng nghyd-destun effeithlonrwydd ynni ym mhob cwr o Gymru. Bydd y cynigion hefyd yn edrych ar bob cyfle i arloesi, o ran nwyddau cynnyrch effeithlonrwydd ynni a modelau ariannol a all helpu i annog mwy o aelwydydd sy'n gallu talu ac aelwydydd incwm isel i ymgymryd â gwelliannau effeithlonrwydd ynni.

**5) Ystyried yr achos dros gyflwyno trethi newydd yng Nghymru, gan ymchwilio i'r polisi, elfennau gweinyddol a'r mecanwaith ar gyfer newid**

**Cefndir**

84. Mae trethi yn ffynhonnell bwysig o refeniw i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus, ond gallant hefyd fod yn ysgogiad pwysig ar gyfer newid ymddygiad ac yn gyfle i annog twf economaidd.
85. Mae Rhan 4A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014) yn caniatáu i drethi datganoledig atodol gael eu rhagnodi drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru a dau Dŷ'r Senedd i wneud hyn. Pan fydd treth ddatganoledig newydd yn cael ei rhagnodi, bydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd i ddeddfu yn y ffordd arferol.
86. Mae datganoli pwerau trethi yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, llywodraeth leol, busnesau a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu agwedd neilltuol i Gymru at drethi. Mae hefyd yn rhoi cyfle i feithrin gallu ac arbenigedd yn Nhrysorlys Cymru.
87. Mae cyhoeddi'r fframwaith polisi trethi a'r cynllun gwaith wedi gosod y safon ar gyfer sut y byddai Llywodraeth Cymru yn mynd ati i ymgysylltu â'r cyhoedd a chynnal dadl gyhoeddus, gyda'r nod o ddilyn yr arferion gorau'n rhyngwladol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu ag arbenigwyr trethi, ac yn sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn materion trethi sy'n hynod dechnegol, ond mae wedi bod yn bwysig ymgysylltu hefyd â sefydliadau sy'n aelodau a'r cyhoedd ynglŷn â sut y gellir defnyddio trethi i gyflawni amcanion polisi.
88. Mae gan Lywodraeth Cymru set glir o egwyddorion treth ar gyfer datblygu trethi newydd. I dreialu'r mecanwaith, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu gwybodaeth i Lywodraeth y DU i ddangos a yw treth newydd o fewn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd hefyd yn dangos a oes achos polisi yn bod ar gyfer treth o'r fath ac a fyddai'n cael effeithiau niweidiol ar bolisi macro-economaidd neu gyllidol y DU.

**Tystiolaeth a dadansoddiad**

89. Mae syniadau ar gyfer trethi newydd yng Nghymru wedi cael eu cyflwyno gan amryw o unigolion a sefydliadau ers i Ddeddf Cymru 2014 gael Cydsyniad Brenhinol. Roedd adroddiad Sefydliad Bevan yn 2016 - *Tax for Good* – yn tynnu sylw at wyth treth Gymreig newydd bosibl, o drethi iechyd y cyhoedd, fel treth ar welyau haul a threth ar becynnau cludfwyd i drethi wedi'u targedu at ysgogi twf economaidd, fel treth gwerth tir a chredydau treth arloesi.
90. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd adroddiad Sefydliad Bevan fel man cychwyn ar gyfer dadansoddi trethi newydd posibl ac wedi ymchwilio i ddulliau arloesol yn rhyngwladol.

91. Fel gyda phob maes o bolisi trethi, mae Llywodraeth Cymru am fabwysiadu dull o ddatblygu trethi newydd a fydd yn cynnig cymaint o gyfleoedd i ymgynghori â phosibl. Drwy fod yn dryloyw, gellir llunio polisiau mwy cadarn, meithrin dealltwriaeth well o anghenion trethdalwyr, a sicrhau mwy o ymddiriedaeth a chydweithio rhwng y cyhoedd a'r Llywodraeth.
92. Arweiniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ddadl yn y Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â threthi newydd ar 4 Gorffennaf. Derbyniodd Llywodraeth Cymru gryn dipyn o ymateb gan y cyhoedd i'r cais am syniadau ynglŷn â'r cynigion ar gyfer trethi newydd – 45 o lythyrau uniongyrchol ac e-byst a mwy na 260 o negeseuon trydar a sylwadau ar straeon newyddion. Mae'r drafodaeth wedi cael ei chroesawu i raddau helaeth ym mhob maes ac mae'r awgrymiadau a ddaeth i law wedi bod yn amrywiol iawn - cynigiwyd mwy na 60 o syniadau am drethi newydd a heriau i bolisi.

### Canlyniadau a chamau nesaf

93. Mae ymatebion y cyhoedd i'r ddadl wedi eu defnyddio i nodi'r meysydd lle gellid ymchwilio ymhellach i drethi er mwyn bodloni blaenoriaethau polisi. Mae Llywodraeth Cymru wedi edrych i ba raddau y mae'r cynigion yn mynd i'r afael â'r meysydd â blaenoriaeth yn y strategaeth genedlaethol Ffyniant i Bawb. Dadansoddwyd sut y gallai'r cynigion fodloni meini prawf ein fframwaith, a chynhaliwyd ymarferion ymgysylltu cychwynnol â'r adrannau perthnasol i ddewis y trethi newydd sydd â mwyaf o botensial. Canlyniad y gwaith hwn yw'r rhestr fer a ganlyn:
94. **Heriau hirdymor o ran cyllido gofal cymdeithasol:** ymchwilio i ysgogiadau ariannol posibl gan gynnwys trethi i gefnogi darpariaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru.
95. **Treth genedlaethol ar dir gwag:** ymchwilio i effeithiolrwydd treth i gyflawni amcan polisi Llywodraeth Cymru i ddod â thir y nodwyd ei fod yn addas ar gyfer ei ddatblygu i ddefnydd cynhyrchiol.
96. **Treth ar blastig untro i fodloni amcanion amgylcheddol:** ymchwilio i opsiynau ar gyfer treth neu ardoll ar ddeunydd plastig untro i helpu Llywodraeth Cymru i fodloni ei thargedau o ran gwaredu
97. **Treth dwristiaeth i gefnogi busnesau lleol:** ymchwilio i ddarpariaethau ar gyfer pwerau caniatol ar gyfer trethi llywodraeth leol.
98. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu'r syniadau hyn drwy gydol yr hydref, a'r bwriad yw ysgrifennu at Drysorlys y DU y flwyddyn nesaf. Bydd ein gwaith yn 2018 yn cynnwys ymgynghori'n barhaus â'r cyhoedd, dadansoddi canlyniadau unrhyw dreth newydd ymhellach, ac ymchwilio i'r goblygiadau gweinyddol.
99. Mae hon yn broses barhaus a byddwn yn parhau i ystyried sut i ddefnyddio ysgogiadau cyllidol ar draws meysydd â blaenoriaeth y llywodraeth. Gallai Llywodraeth Cymru ystyried syniad am dreth a awgrymwyd yn y gorffennol

unwaith eto ymhen blynyddoedd i ddod, neu edrych ar syniadau newydd ar wahân i'r rheini a grybwyllwyd hyd yma.

**6) Yn 2017 a 2018, gweithio gyda Llywodraeth y DU i helpu i gyflwyno ardoll y diwydiant diodydd meddal yn llwyddiannus yng Nghymru**

**Cefndir**

100. Mae gan y DU un o'r cyfraddau gordewdra uchaf ymhlith y gwledydd datblygedig ar hyn o bryd<sup>16</sup>. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod bwyta siwgr yn un o brif ffactorau gordewdra yn ystod plentyndod ac erbyn hyn diodydd meddal sydd wedi'u melysu â siwgr yw'r brif ffynhonnell o siwgr yn neiet plant a phobl ifanc yn eu harddegau<sup>17</sup>.
101. Yng Nghyllideb 2016, cyhoeddodd Llywodraeth y DU fod ardoll yn cael ei chyflwyno ar y diwydiant diodydd meddal. Bydd yr ardoll yn dod i effaith o fis Ebrill 2018 a bydd yn gweithredu ar sail y DU gyfan. Nid polisi Llywodraeth Cymru yw'r ardoll.
102. Bydd ardoll y DU yn gymwys i gynhyrchu a mewnfurio diodydd meddal sy'n cynnwys siwgr wedi'i ychwanegu. Bwriad polisi Llywodraeth y DU yw annog cynhyrchwyr diodydd meddal sy'n cynnwys siwgr wedi'i ychwanegu i:
- Ailwampio eu cynnyrch i leihau'r siwgr sy'n gynnwysedig
  - Lleihau maint dognau diodydd sy'n cynnwys siwgr wedi'i ychwanegu a mewnfurio diodydd sydd wedi'u hailwampio sy'n cynnwys llai o siwgr wedi'i ychwanegu er mwyn annog y rheini sy'n yfed diodydd meddal i wneud dewisiadau iachach.
103. Prif gyfradd yr ardoll fydd 18c y litr, a fydd yn gymwys i ddiodydd sydd â siwgr wedi'i ychwanegu sy'n dod i gyfanswm o 5g o siwgr neu fwy fesul 100ml a bydd cyfradd uwch o 24c y litr ar gyfer diodydd sy'n cynnwys 8g neu fwy fesul 100ml. Ni fydd yn gymwys i ddiodydd sydd heb siwgr wedi'i ychwanegu. Ni fydd diodydd sy'n seiliedig ar laeth y mae eu cynnwys llaeth yn 75% neu fwy a diodydd a amnewidiwyd am laeth yn destun yr ardoll. Mae diodydd alcoholig ag iddynt ABV o hyd at 1.2% o fewn cwmpas yr ardoll, ond mae Llywodraeth y DU yn gwneud darpariaeth i eithrio rhai diodydd sy'n dod o dan y categori hwn. Bydd cynhyrchwyr bach yn cael eu heithrio rhag talu'r ardoll. Diffinnir cynhyrchydd bach fel un sy'n cynhyrchu llai na miliwn o litrau o gynnyrch yn ystod unrhyw flwyddyn.
104. Mae Llywodraeth Cymru wedi galw ers amser ar Lywodraeth y DU i gymryd camau mwy cadarn ar faint o siwgr sy'n cael ei fwyta ar lefel y DU. Mewn egwyddor, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyflwyno ardoll y diodydd meddal, er ei bod hi'n bwysig nad yw'r ardoll yn cael unrhyw ganlyniadau anfwriadol a bod yr effaith ar y diwydiant diodydd meddal yn gymesur. Cyn i Lywodraeth y DU gyhoeddi bod ardoll yn cael ei chyflwyno ar y diwydiant diodydd meddal, cefnogodd Llywodraeth Cymru gynnig yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynigion i gyflwyno ardoll ar ddiodydd sy'n cynnwys siwgr.

<sup>16</sup> *Healthy Weight, Healthy Lives: A toolkit for developing local strategies*, Dr Kerry Swanton ar gyfer Fforwm Cenedlaethol y Galon/Uned Gordewdra Traws-lywodraethol/Cyfadran Iechyd y Cyhoedd, 2008.

<sup>17</sup> *Sugar Reduction: the Evidence for Action*, Public Health England, Hydref 2015

105. Daeth Sefydliad Bevan, a oedd eisoes wedi cynnig treth siwgr, i'r casgliad bod yr achos yn parhau dros gyflwyno treth Gymreig ar siwgr a fyddai'n gweithredu ar y cyd ag ardoll y diwydiant diodydd meddal. Byddai'r dreth hon yn berthnasol i ystod ehangach o gynnyrch yn hytrach na diodydd meddal yn unig.
106. Fel yr amlygwyd gan Sefydliad Bevan, roedd y Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd ynghyd â'r Bil Cymru yn 2014 yn dweud: "Os yw Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno treth newydd sydd ag elfen o gysondeb â meysydd datganoledig, bydd yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru i weld pa sgôp sydd i ddatganoli'r dreth honno."
107. Mae ardoll y diwydiant diodydd meddal yn amlwg yn dreth sydd ag iddi elfen agos iawn o gysondeb â meysydd y mae cyfrifoldeb drostynt wedi'i ddatganoli. Nid ymgynghorodd Llywodraeth y DU â Llywodraeth Cymru ynglŷn â chwmpas ardoll y diwydiant diodydd meddal. Yn dilyn y cyhoeddiad i gyflwyno ardoll y diwydiant diodydd meddal, ysgrifennodd y cyn Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth at Ganghellor y Trysorlys yn mynegi pryderon na chafwyd ymgynghoriad ar y mater hwn.
108. Mae'r fframwaith polisi trethi yn cydnabod bod trethi Cymreig yn eistedd yng nghyd-destun trethi ehangach y DU ac un o'n prif egwyddorion yw y dylai trethi Cymreig fod "yn syml, yn glir ac yn sefydlog". Mae cyflwyno ardoll y diwydiant diodydd meddal yn golygu newid mawr i'r diwydiant ac mae'n ddull newydd ar lefel y DU o ddylanwadu ar faint o siwgr sy'n cael ei fwyta. Gan gadw hynny mewn cof, nid ydym yn credu y byddai treth Gymreig newydd ar siwgr yn glir nac yn syml ar gyfer cynhyrchwyr na defnyddwyr. Ein blaenoriaeth ar hyn o bryd yw gweithio gyda Llywodraeth y DU i weithredu ardoll y diwydiant diodydd meddal yng Nghymru a pharhau i gefnogi unigolion i fyw bywydau iachach<sup>18</sup>.

### **Tystiolaeth a dadansoddiad**

109. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl amcangyfrif faint o fanteision iechyd a ddaw yn sgil cyflwyno'r ardoll a dim ond pan fydd y manteision hynny yn cael eu cyflawni y gellir mesur llwyddiant. Yn ôl ymchwil gan Adran Gwyddorau Iechyd Gofal Sylfaenol Nuffield Prifysgol Rhydychen<sup>19</sup> disgwylir i'r ardoll gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd.

<sup>18</sup> Er enghraifft, drwy ei Llwybr Gordewdra Cymru Gyfan 2010, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu fframwaith o wasanaethau y disgwylir i Fyrddau Iechyd a rhanddeiliaid eraill yn y maes hwn eu cyflenwi. Mae'r llwybr yn canolbwyntio ar adfer y cydbwysedd rhwng gwasanaethau fel bod mwy o ymyrraeth gynnar i fynd i'r afael â gordewdra. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn datblygu ei rhaglen 10 cam i fynd i'r afael â gordewdra yn ystod plentyndod, gan ganolbwyntio ar feithrin arferion iach ymhlith rhieni a phlant yn gynnar.

<sup>19</sup> Health impact assessment of the UK soft drinks industry levy: a comparative risk assessment modelling study. Briggs, Adam D M et al. *The Lancet Public Health*, Cyfrol 2, Rhifyn 1, e15 - e22


110. Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi camau i annog pobl i fwyta deiet iachach. Fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw'r ardoll yn cael unrhyw ganlyniadau anfwriadol a bod yr effaith ar y diwydiant diodydd meddal yn gymesur.
111. Mae'r diwydiant diodydd meddal yng Nghymru wedi gweld cyfnod o dwf cadarn ac mae'n cefnogi gweithgarwch economaidd gwerthfawr ledled Cymru. Gan mai nifer bach o fusnesau unigol fydd yn cael eu heffeithio gan yr ardoll, yn unol â'r rheolau ar ddatgeliadau, ni cheir data arnynt, fodd bynnag mae yna 19 o fusnesau dŵr a diodydd meddal yng Nghymru<sup>20</sup>.
112. Yn ôl ymchwil y diwydiant, <sup>21</sup>bydd ardoll y diwydiant diodydd meddal yn cael effaith a fydd yn gwahaniaethu ar draws gwahanol rannau o'r sector ac mae'n debygol mai'r farchnad diodydd egni a diodydd llonydd fydd yn cael ei heffeithio fwyaf (gweler Ffigur 4).

---

<sup>20</sup> *Analysis and overview of the Welsh drinks industry March 2017*, Brookdale Consulting

<sup>21</sup> Cyhoeddwyd yn *Analysis and overview of the Welsh drinks industry March 2017*, Brookdale Consulting

**Ffigur 4: Cyfanswm gwerthiant trethadwy yn ôl categori o ddiod**



113. Mae trafodaethau â'r diwydiant diodydd yng Nghymru yn awgrymu bod llawer o gynhyrchwyr eisoes wedi bod yn ailwampio eu cynnyrch i leihau'r siwgr ynddynt, cyn i ardoll y diwydiant diodydd meddal gael ei chyflwyno. Maent yn ymateb i'r newid sydd wedi bod yn y penderfyniadau prynu sy'n cael eu gwneud gan ddefnyddwyr o ganlyniad i'r ddadl gyhoeddus barhaus ynglŷn â gordewdra a deiet.
114. Mae'n ddyddiau cynnar ond mae'r diwydiant diodydd meddal yng Nghymru yn credu y bydd y gwaith sydd ar y gweill eisoes i ailwampio cynnyrch yn cael ei wneud yn gyflymach yn sgil cyflwyno ardoll y diwydiant diodydd meddal. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl amcangyfrif ar hyn o bryd pa effaith y bydd yr ardoll yn ei chael ar batrymau yfed diodydd meddal.

### Canlyniadau a champau nesaf

115. Yn dilyn cyflwyno'r ardoll ym mis Ebrill 2018, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r sector iechyd a'r diwydiant diodydd meddal yng Nghymru i gael gwell dealltwriaeth o'r effaith y bydd yr ardoll yn ei chael yng Nghymru.

- 7) **Pan fydd gan Awdurdod Cyllid Cymru ddigon o ddata, bydd yn dadansoddi data'r dreth trafodiadau tir mewn perthynas â gordal y gyfradd uwch ar sail awdurdod lleol. Gellid defnyddio hyn fel sail ar gyfer trafodaethau ag awdurdodau lleol ynglŷn â gweithredu'r gyfradd uwch.**

### **Cefndir**

116. Mae Deddf Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 yn darparu ar gyfer disodli treth dir y dreth stamp ag LTT o fis Ebrill 2018. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer gordal cyfradd uwch ar eiddo preswyl ychwanegol a brynir gan unigolion sydd eisoes yn berchen ar eiddo preswyl (er enghraifft, ail gartrefi neu eiddo prynu i osod) ac ar brynu unrhyw eiddo preswyl lle nad yw'r prynwr yn unigolyn, megis cwmni.
117. Cafodd y gyfradd dreth uwch ar eiddo ychwanegol ei chyflwyno ar gyfer treth dir y dreth stamp ym mis Ebrill 2016 ac, ers ei chyflwyno, mae referniw wedi cynyddu. Pan fydd LTT yn disodli treth dir y dreth stamp, bydd y grant bloc a ddarperir i Lywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU yn cael ei dorri, ar gyfartaledd, yn ôl cyfanswm y referniw na fydd yn cael ei gasglu mwyach o dreth dir y dreth stamp. Mae'r gyfradd uwch wedi'i hatgynhyrchu felly ar gyfer LTT er mwyn diogelu referniw i gyllido gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
118. Wrth graffu ar Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, dywedwyd y dylai awdurdodau lleol allu cyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ar ordal y gyfradd uwch er mwyn helpu i fodloni anghenion gwahanol gymunedau yng Nghymru. Gall awdurdodau lleol eisoes gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ac mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu at arweinwyr yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru yn eu gwahodd i fynegi barn am weithredu gordal y gyfradd uwch yn eu hardal unwaith y bydd digon o ddata ar gael i lywio'r trafodaethau hyn.

### **Tystiolaeth a dadansoddiad**

119. Yn ogystal â goblygiadau o ran referniw, gallai'r gyfradd uwch gael effaith hefyd ar argaeledd tai. Er enghraifft, gallai'r gyfradd uwch olygu bod llai o ail gartrefi ac eiddo prynu i osod yn cael eu prynu, a allai feddwl bod mwy o eiddo ar gael i'r rheini sydd am brynu eu cartrefi cyntaf. Fodd bynnag, gallai llai o eiddo prynu i osod hefyd olygu y bydd llai o lety rhent ar gael hefyd. Gallai'r effeithiau amrywio o un ardal i'r nesaf. Hyd yn oed lle y bo'r effeithiau yr un fath, gallai fod yn effaith gadarnhaol mewn rhai cymunedau ac yn effaith negyddol mewn cymunedau eraill, gan ddibynnu ar argaeledd tai ac anghenion tai yn yr ardal honno.
120. Fel yr amlinellwyd yn y fframwaith polisi trethi, mae angen ystyried yn ofalus yr effaith y bydd ein hagwedd at bolisi trethi yn ei chael ar amcanion polisi a fforddiadwyedd, a gwneud hynny yn seiliedig ar dystiolaeth. Cyn dechrau ystyried effaith y gyfradd uwch mewn gwahanol rannau o Gymru bydd hi'n

bwysig cael data y gellir eu dadansoddi yn ôl ardal awdurdod lleol ar weithredu'r gyfradd uwch.

### **Canlyniadau a chymau nesaf**

121. Bydd prif elfen y gwaith yn dechrau unwaith y bydd Awdurdod Cyllid Cymru wedi casglu digon o ddata. O fis Ebrill 2018, bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn dechrau casglu data LTT, gan gynnwys data yn ymwneud â gordal y gyfradd uwch. Bydd gwerth blwyddyn gyfan o ddata wedi cael eu casglu ar ôl mis Mawrth 2019, a allai ddarparu digon o wybodaeth i ddechrau dadansoddi gweithredu gordal y gyfradd uwch ar sail awdurdod lleol.
122. Cyn mis Ebrill 2018, mae gwaith paratoadol gan Drysorlys Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru eisoes ar y gweill. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod data a systemau casglu Awdurdod Cyllid Cymru yn alluog i fodloni'r gofyniad hwn. Dim ond pan fydd gwneud hynny yn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â chyfrinachedd gwybodaeth trethdalwyr y bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn ei rhannu.
123. Y tu hwnt i ddeall pa effaith a gaiff cyfraddau uwch LTT ar eiddo preswyl ychwanegol, mae yna ystyriaethau ehangach mewn perthynas â rhannu data a thystiolaeth. Byddwn yn ystyried sut y gall Awdurdod Cyllid Cymru ddefnyddio ei bwerau i gefnogi Gweinidogion Cymru yn effeithiol i wneud penderfyniadau cadarn mewn perthynas â pholisi treth, gan drafod ag Awdurdod Cyllid Cymru ac eraill.

**8) Yn ystod 2017, ymgynghori ar y defnydd o bwerau troseddol gan Awdurdod Cyllid Cymru fel rhan o'r dull o orfodi trethi Cymreig**

**Cefndir**

124. Cafodd Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 Gydsyniad Brenhinol yn 2016. Mae'r Ddeddf yn nodi'r fframwaith llywodraethu ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yn effeithiol ac effeithlon, sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru a gwneud darpariaethau ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig. Mae hefyd yn sefydlu system drethi Gymreig i gefnogi cydymffurfiaeth trethdalwyr, a'i alluogi
125. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i drethdalwyr dalu'r swm cywir o dreth ar yr amser cywir. O bryd i'w gilydd, fodd bynnag, bydd angen mesurau ychwanegol i sicrhau cydymffurfiaeth, megis cynnal ymchwiliadau sifil a gorfodi cosbau.
126. Mae Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn darparu ystod gynhwysfawr o ymchwiliadau sifil a phwerau gorfodi i Awdurdod Cyllid Cymru. Bydd y rhain yn cynnwys pwerau sifil i:
- Ei gwneud yn ofynnol i drethdalwyr a rhai trydydd partion penodol ddarparu gwybodaeth a dogfennau penodedig
  - Archwilio eiddo i wirio beth yw sefyllfa treth person
  - Gorfodi cosbau am beidio â chydweithredu ag ymchwiliad trethi.
127. Mae'n debygol y bydd y pwerau sifil sydd eisoes yn cael eu darparu gan y Ddeddf yn ddigonol i fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o achosion o beidio â chydymffurfio yng Nghymru, fodd bynnag, yn seiliedig ar brofiad CThEM yn ogystal â chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, mae'n debygol y bydd yna achosion lle na fydd y pwerau presennol yn ddigonol i annog cydymffurfiaeth.
128. Mae CThEM yn gweithredu yng Nghymru ar hyn o bryd ac mae ganddo fynediad at ystod o bwerau troseddol i fynd i'r afael â throseddau treth sy'n gysylltiedig â threth dir y dreth stamp, y dreth dirlenwi a threthi eraill. Mae'r pwerau hyn wedi cael eu defnyddio mewn amrywiol achosion ac mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod achos cadarn i gefnogi'r angen dros roi'r pwerau hyn i Awdurdod Cyllid Cymru i'w alluogi i ymchwilio i droseddau treth fel twyll neu dwyllo cyllid y wlad, pan fyddant yn cael eu datganoli ym mis Ebrill 2018. Mae gan CThEM set o fesurau diogelwch sydd wedi'u diffinio'n glir ar gyfer sicrhau bod y pwerau hyn yn cael eu defnyddio'n gymesur ac yn briodol a fyddai'n weithredol yng Nghymru hefyd. Mae'r dreth gwarediadau tirlenwi'n agored i efnid trethi hefyd. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod hyn yn rhannol oherwydd cyfradd uchel y dreth a'r gwahaniaeth sylweddol rhwng y gyfradd is gyfredol (£2.65) a'r gyfradd uwch gyfredol (£84.40).
129. Os bydd y gwahaniaeth rhwng cyfraddau yn aros yr un fath o dan LDT, gallwn ragdybio y bydd yr un cymhelliad i efnid trethi yn parhau a bydd pobl yn ceisio gwneud hynny. Yn 2016, amcangyfrifwyd bod y bwllch treth - swm y dreth a gasglwyd o'i gymharu â'r hyn y dylid fod wedi'i gasglu - yn gyfanswm o tua £150m, ac roedd y cyfanswm cyfatebol yng Nghymru tua £3.34m.

130. Nid oes cymaint o gyfle i efnegu trethi yng nghyd-destun trafodiadau tir ag sydd yna yng nghyd-destun gwaredu gwastraff. Mae gweithwyr proffesiynol fel arfer yn chwarae rhan flaenllaw yn y trafodiad gan gynrychioli'r prynwr. Mae achosion wedi dod i'r amlwg, fodd bynnag, lle mae gweithiwr proffesiynol wedi helpu i anwrio datganiadau drwy addasu gwerth eiddo i efnegu talu'r lefel gywir o dreth. Fodd bynnag, mae achosion eraill wedi bod lle mae'r cynrychiolydd cyfreithiol wedi cymryd y taliad treth ond heb ei anfon ymlaen i CThEM (drwy hawlio gostyngiad yn y dreth trwy dwyll neu ddweud bod y gydnabyddiaeth a roddwyd ar gyfer pryniant ei gleient yn llai nag yr oedd mewn gwirionedd), a thwyllw'r prynwr felly drwy ei amddifadu o'r dreth a dalwyd.

### **Tystiolaeth a dadansoddiad**

131. Cynhaliwyd ymgynghoriad dros gyfnod yr haf: *Mynediad Awdurdod Cyllid Cymru at bwerau troseddol er mwyn mynd i'r afael â throseddau trethi datganoledig*<sup>22</sup>. Gofynnwyd yn yr ymgynghoriad i'r ymatebwyr roi eu barn am y manteision a'r anfanteision o roi mynediad i Awdurdod Cyllid Cymru at bwerau troseddol penodol.

### **Canlyniadau a chymau nesaf**

132. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r ymgynghoriad yn ddiweddarach yn ystod y mis a bydd penderfyniad yn cael ei wneud a ddylid gosod rheoliadau ai peidio i ddarparu mynediad i Awdurdod Cyllid Cymru at bwerau troseddol penodol.
133. Os bydd y rheoliadau yn cael eu gosod a'r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu rhoi'r pwerau hyn i Awdurdod Cyllid Cymru, bydd angen rhoi polisiâu a gweithdrefnau clir ar waith fel mesur diogelu i sicrhau na fydd y ddeddfwriaeth yn cael ei chamddefnyddio. Er enghraifft, mewn perthynas â phwerau gwyliadwriaeth o dan y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio, bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn destun archwiliad ac arolygiaeth gan Gomisiynydd Arwylio'r DU.

---

<sup>22</sup> [https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/sites/default/files/consultation\\_doc\\_files/170710-consultation-cy-a.pdf](https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/sites/default/files/consultation_doc_files/170710-consultation-cy-a.pdf)


**9) Datblygu dulliau dadansoddol fel cymorth ar gyfer datblygu polisi'r dreth incwm yng Nghymru.**

**Y cefndir**

134. Bydd cyfraddau treth incwm ar gyfer Cymru'n cael eu cyflwyno o fis Ebrill 2019 ymlaen. Bydd cyfraddau treth y DU ar incwm heb fod yn gynilion a heb fod yn ddifidend yn cael eu gostwng 10c a bydd Llywodraeth Cymru'n pennu ei chyfraddau ei hun ar gyfer y bandiau safonol, uwch ac ychwanegol. Pe bai'n pennu cyfradd o 10c ym mhob band ni fyddai'r gyfradd gyffredinol o dreth incwm y byddai trethdalwyr o Gymru'n ei hwynebu yn newid (gweler ffigur pump).
135. Caiff Llywodraeth Cymru'r refeniw o'i chyfraddau trethi ei hun a bydd gostyngiad cyfatebol yn y grant bloc oddi wrth Lywodraeth y DU. Bydd maint cychwynnol y gostyngiad hwn yn adlewyrchu colled refeniw Llywodraeth y DU yn sgil lleihau cyfraddau trethi ym mhob band yng Nghymru. Wedi hynny bydd addasiadau'r grant bloc ar gyfer pob band yn cynyddu gyda'r twf mewn refeniw cyfatebol mewn manau eraill yn y DU.
136. CThEM fydd yn cadw'r cyfrifoldeb dros weinyddu'r system treth incwm, gan gynnwys y cyfraddau Cymreig, ac fe gaiff ei gynorthwyo yn y gwaith paratoi ar gyfer datganoli treth incwm yn rhannol gan y gwersi y mae wedi'u dysgu yn yr Alban.
137. Fel cam cyntaf, bydd angen i CThEM nodi trethdalwyr o Gymru fel y'u diffinnir yn Neddf Cymru 2014. Bydd Llywodraeth Cymru'n cefnogi CThEM yn y dasg hon, gan nodi ffynonellau data y gellid eu defnyddio i groes-gydweddu cofnodion CThEM.
138. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau gweithio ar nifer o feysydd dadansoddi i baratoi ar gyfer cyflwyno cyfraddau Cymreig y dreth incwm. Mae wedi dechrau datblygu arfau modelu a rhagamcanu i lywio datblygiad polisi trethi a'r broses gyllidebu ehangach. Mae hefyd yn gweithio i sicrhau bod yr arfau hyn yn cael eu llywio gan y ffynonellau data gorau posibl a bod ei haddasiadau cyllidebol yn adlewyrchu cytundeb y fframwaith cyllidol a wnaed rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn Rhagfyr 2016. Mae'r ychydig baragraffau nesaf yn disgrifio argaeledd data am dalwyr treth incwm Cymreig a sut y gellid gwella hyn.
139. Mae CThEM yn llunio set ddata at ddibenion dadansoddi o'r enw yr Arolwg o Incwm Personol (SPI) sy'n cwmpasu pob blwyddyn drethi. Mae'n cael ei chynhyrchu o sampl o dalu wrth ennill, hunanasesu a chofnodion trethi'r system hawliadau. Mae'r SPI yn darparu ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth am drethdalwyr yn y DU. Mae'n sail i fodel efelychu CThEM ac yn cael ei defnyddio ym mhroses ragamcanu'r DU.
140. Seilir yr SPI ar sampl o ryw 560,000 o dalwyr treth incwm yn y DU a rhyw 20,000 yng Nghymru. Mae gan Lywodraeth Cymru fynediad i fersiwn o'r SPI a elwir y tîp defnydd cyhoeddus, a gyhoeddir yn Archif Data'r DU o dan ofal

Prifysgol Essex. Mae gan hwn sampl o'r un maint â fersiwn fewnol CThEM ond mae'n cynnwys gwybodaeth llai manwl am drethdalwyr. Er enghraifft, nid yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth ddaearyddol yn is na gwlad y DU a rhanbarth o Loegr. Mae hefyd yn cynnwys cofnodion cyfansawdd ar gyfer trethdalwyr incwm uchel iawn sy'n cael eu rhannu ar draws gwledydd a rhanbarthau. (Mae'r cyfyngiadau hyn yn bodoli i sicrhau nad oes modd adnabod trethdalwyr unigol o'r data.)

Ffigur pump: Beth y mae cyfraddau Cymreig o dreth incwm (WRIT) yn ei olygu ar gyfer ein gallu i bennu cyfraddau o 2019-20?



Gwybodaeth gyllidebol Llywodraeth Cymru

141. Mae'r fersiwn o'r SPI sydd i'w defnyddio gan y cyhoedd yn cael ei chyhoeddi ddwy flynedd ar ôl diwedd y cyfnod y mae'n cyfeirio ato. Er enghraifft, cyhoeddwyd set ddata 2014-15 ym mis Gorffennaf 2017. Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â Llywodraeth yr Alban a Chomisiwn Cyllidol yr Alban, yn ymgysylltu â CThEM i weld a all wella amseroldeb mynediad i'r SPI ac a ellid trefnu bod gwybodaeth fanylach ar gael.

### **Tystiolaeth a dadansoddiad**

142. Mae Llywodraeth Cymru'n datblygu arf rhagamcanu a chostio ar gyfer treth incwm gan ddefnyddio dosbarthiad incwm trethdalwyr yng Nghymru o'r SPI. Oherwydd y llithriad amser cyn bod yr SPI ar gael, mae'r dosbarthiad yn cael ei ddiweddarau ar gyfer y blynyddoedd dilynol gan ddefnyddio data am gyflogaeth a thwf enillion. Mae rhagolygon OBR o gyflogaeth ac enillion wedyn yn cael eu defnyddio i gynhyrchu dosbarthiadau o ragolygon incwm ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae'r paramedrau treth incwm priodol ar gyfer pob blwyddyn wedyn yn cael eu cymhwyso i'r dosbarthiad hwn i amcangyfrif refeniw o gyfraddau treth incwm Cymru a'r DU.
143. Caiff gwaith pellach ei wneud i benderfynu a oes unrhyw ffynonellau data y gellid eu defnyddio i ddiweddarau'r dosbarthiad incwm. Mae Llywodraeth yr Alban wedi datblygu model sy'n rhagamcanu refeniw ar wahân ar gyfer y sector cyhoeddus a'r sector preifat ac ar gyfer gwahanol grwpiau oedran. Mae Comisiwn Cyllidol yr Alban yn debygol o arddel yr un dull gweithredu ag y mae'n ei wneud ar gyfer y swyddogaeth ragamcanu. Bydd Llywodraeth Cymru'n ymchwilio i weld a fyddai'n werth defnyddio dull gweithredu tebyg yng Nghymru. Bydd hefyd yn datblygu'r model ymhellach i gymryd i ystyriaeth effeithiau ymddygiadol ar yr amcangyfrifon refeniw lle bo'n briodol.
144. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu'r gallu i ddadansoddi effaith trethi a budd-daliadau ar aelwydydd yng Nghymru. Mae'r dadansoddiad dosbarthiadol hwn yn defnyddio technegau micro-efelychu i ymchwilio i sut y mae trethi a budd-daliadau'n effeithio ar wahanol fathau o aelwydydd ar draws y dosbarthiad incwm. Mae'n hwyluso dadansoddiad o newidiadau mewn treth incwm ar y cyd â threthi eraill ac â system budd-daliadau'r DU. Mae hyn yn cefnogi amcan y fframwaith polisi trethi o godi refeniw mor deg â phosibl gan ddefnyddio modelau newydd i ddadansoddi data'n effeithiol ac i nodi unrhyw faterion newydd.
145. Mae'r dadansoddiad dosbarthiadol yn cael ei wneud gan ddefnyddio *Euromod*, a ddyluniwyd i fodlu effeithiau trethi a budd-daliadau ar gyfer pob un o wledydd yr EU, gan gynnwys y DU. Cafodd y model ei greu ac mae'n cael ei gynnal gan y Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd (ISER) ym Mhrifysgol Essex.
146. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a CThEM i sicrhau bod y rhagolygon a ddefnyddir i amcangyfrif y grant bloc ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn gadarn ac yn adlewyrchu'r dull gweithredu a nodwyd yng nghytundeb y fframwaith cyllidol. Mae hyn yn gofyn am ragolygon

o refeniw yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ar wahân ar gyfer pob band treth incwm. Nid yw'r rhain ar gael yn hawdd o'r fethodoleg ragamcanu bresennol, felly mae gwaith ar y gweill i roi'r datblygiadau dadansoddi angenrheidiol ar waith.

### **Y canlyniad a'r camau nesaf**

147. O 2018 ymlaen bydd Llywodraeth Cymru'n pennu'r cyfraddau cyntaf o dreth incwm Cymreig. Caiff yr arfau dadansoddi uchod eu datblygu i lywio'r penderfyniad ar gyfraddau trethi ac i sicrhau bod datganoli treth incwm yn rhannol yn cael ei integreiddio'n llyfn â'r broses gyllidebu yng Nghymru.

## 10) Adolygu'r dystiolaeth ar gyfer penderfynu ar y cydbwysedd trethi rhwng incwm ac eiddo

### Y cefndir

148. Caiff LTT ei chyflwyno yn Ebrill 2018 a bydd cyfraddau Cymreig o dreth incwm yn dilyn yn Ebrill 2019. Ynghyd â threthi a godir i ariannu gwasanaethau lleol (y dreth gyngor ac ardrethi annomestig), caiff mwy na £2.5bn o refeniw trethi a seilir yn rhannol neu'n gyfan gwbl ar werth eiddo ei reoli gan y llywodraeth ganolog neu lywodraeth leol yng Nghymru. Am y tro cyntaf bydd cyfle i ystyried cydbwysedd trethi Cymreig rhwng incwm ac eiddo.

### Tystiolaeth a dadansoddi

149. Mae corff o dystiolaeth yn dod i'r amlwg i awgrymu y gellid sicrhau system drethi fwy effeithlon ac effeithiol - sy'n gydnaws â thwf economaidd - trwy symud baich trethi i ffwrdd o incwm a thuag at eiddo. Mae'r astudiaeth a grybwyllir amlaf ar y pwnc hwn, a gyhoeddwyd gan OECD<sup>23</sup>, yn rhestru gwahanol offerynnau trethi o ran eu perthynas â thwf economaidd. Mae'r canlyniadau'n awgrymu bod trethi incwm yn gysylltiedig yn gyffredinol â thwf economaidd is na threthi ar dreuliant ac eiddo. Mae diwygiadau trethi tuag at drethi eiddo yn debygol felly o wella'r rhagolygon ar gyfer twf economaidd.

150. Efallai y bydd achos o blaid newid cydbwysedd trethiant rhwng incwm tuag at eiddo. Gallai hyn gyd-fynd â'n hegwyddor i gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru, yn enwedig cefnogi twf a swyddi.

151. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwmo i sicrhau bod trethi Cymreig yn helpu i greu Cymru fwy cyfartal. Mae system treth incwm bresennol y DU yn raddedig iawn gyda lwfans rhydd rhag trethi sydd wedi'i bennu'n £11,500 ar hyn o bryd a chyfraddau treth incwm sy'n cynyddu gyda bandiau treth incwm uwch. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i wneud y dreth gyngor yn decach gan gydnabod y sgôp i wneud y system bresennol yn fwy graddedig.

152. Yn ffigur chwech dangosir baich presennol treth incwm ar gyfer treth incwm y DU a'r dreth gyngor yng Nghymru ar draws aelwydydd sydd wedi'u grwpio yn ôl cwintelau incwm. Mae'r dadansoddiad ar gyfer y dreth gyngor yn cynnwys cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor, sy'n darparu cymorth ariannol gyda biliau'r dreth gyngor i'r rhai y mae arnynt ei angen fwyaf. Er hynny, fe wyddom mai dim ond i ryw raddau y mae pobl yn manteisio ar y cynllun<sup>24</sup>. Mae ffigur chwech yn dangos bod treth incwm yn ffurfio cyfran gynyddol o incwm gros aelwydydd wrth i bobl symud i grwpiau incwm uwch. Mae'r gwrthwyneb yn wir


---

<sup>23</sup> J. Arnold, *Do tax structures affect aggregate economic growth? Empirical evidence from a panel of OECD countries*' Papur Gweithio Adran Economeg OECD 643, 2008  
[http://www.oecd.org/officialdocuments/publicdisplaydocumentpdf/?doclanguage=en&cote=eco/wkp\(2008\)51](http://www.oecd.org/officialdocuments/publicdisplaydocumentpdf/?doclanguage=en&cote=eco/wkp(2008)51)

<sup>24</sup> Fel y trafodwyd yn yr adran ar drethi lleol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sicrhau bod y rhai sy'n gymwys i gael cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor yn elwa arno.

am y dreth gyngor, hyd yn oed ar ôl cynnwys cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor.

## Ffigur chwech: Treth incwm a'r dreth gyngor yng Nghymru fel canran o incwm yn ôl cwintel, 2016-17



Ffynhonnell: FRS 2013-14 ac wedi'i fodelu gan ddefnyddio EUROMOD fersiwn G4.0  
Dangosir y dreth gyngor yn net o gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor gyda'r nifer cyfyngedig sy'n manteisio arno'n cael ei gymhwyso.

### Y canlyniad a'r camau nesaf

153. Mae angen ymchwilio i ystod o faterion wrth ystyried cydbwysedd trethiant rhwng incwm ac eiddo yng Nghymru. Er y byddai'r dystiolaeth ddamcaniaethol yn cefnogi symud o drethiant incwm i drethiant eiddo i gefnogi twf economaidd, byddai angen ystyried effaith diwygio o'r fath yng nghyd-destun Cymru. Mae trethi eiddo presennol Cymru'n rhan annatod o'r system bresennol o ariannu llywodraeth leol ac mae'r awdurdodau lleol yn atebol i'w hetholwyr lleol ar gyfer y cyfraddau a bennir ar gyfer y dreth gyngor. Yn ogystal, mae'r sector eiddo hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at dwf economaidd yng Nghymru. Mae symud cydbwysedd trethiant rhwng incwm ac eiddo hefyd yn debygol o gael goblygiadau ar natur raddedig y system drethi yng Nghymru.
154. Gyda'r ystod o drethi Cymreig sydd o dan reolaeth y llywodraeth ganolog neu lywodraeth leol yng Nghymru mae'n briodol ystyried cydbwysedd trethiant rhwng incwm ac eiddo. Darn ymchwil tymor hwy yw hwn lle y bydd angen rhoi ystyriaeth fanwl i'r materion gan gynnwys effaith unrhyw ddiwygio yn erbyn amcanion polisi Llywodraeth Cymru.

## Casgliad

155. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i fanteisio ar ei holl ysgogiadau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ar gyfer y pum maes allweddol yn Ffyniant i Bawb:
  - Y blynyddoedd cynnar
  - Tai
  - Gofal cymdeithasol
  - Iechyd meddwl
  - Sgiliau a chyflogadwyedd.
156. Byddwn yn datblygu capasiti a galluogrwydd yn ein sefydliad ein hunain a chyda'n partneriaid i'n galluogi i gysoni amcanion strategol a pholisi Llywodraeth Cymru, gan edrych ar sut y gellir gwneud trethiant Cymreig yn fwy graddedig a theg gan gefnogi swyddi a thwf yr un pryd.
157. Byddwn yn cydweithio ac yn ymgysylltu yn dryloyw i sicrhau bod ein cynigion ar gyfer polisi trethi yn gadarn ac yn bodloni ein hegwyddorion polisi o ran trethi, gan gydnabod cyd-destun ehangach y DU a'r cyd-destun rhyngwladol.
158. Byddwn yn anelu at ddatblygu a chyhoeddi tystiolaeth a data i gefnogi'r penderfyniadau y byddwn yn eu gwneud, a'r dewisiadau cyfaddawdu y bydd gofyn eu gwneud o bosibl, wrth inni wireddu ein hamcanion.
159. Rydym yn bwriadu cyhoeddi cynllun gwaith newydd ar ddechrau 2018, a fydd yn nodi'r prif elfennau i symud tuag at ein hamcanion polisi ar gyfer trethi Cymreig. Bydd yn cynnwys y camau nesaf o'r cynllun gwaith hwn fel y nodir yn yr adroddiad hwn. Mae'r themâu sy'n dod i'r amlwg yn cynnwys:
  - a. Pennu cyfraddau a bandiau gan gynnwys y cyfraddau cyntaf ar gyfer y cyfraddau Cymreig o dreth incwm;
  - b. Cyflawni amcanion polisi, gan gynnwys hyrwyddo tegwch a thwf economaidd; trwy ysgogiadau trethi Cymreig;
  - c. Bwrw ymlaen ag agenda trethi llywodraeth leol;
  - d. Gwella gweinyddu trethi er budd trethdalwyr a dinasyddion Cymru.

# Atodiad: Cyfraddau a Bandiau Trethi Datganoledig

## Cyflwyniad

- A1. O fis Ebrill 2018, bydd y dreth trafodiadau tir (LTT) a'r dreth gwarediadau tirlenwi (LDT) yn disodli treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi yng Nghymru. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r materion allweddol a ystyrir wrth bennu'r cyfraddau trethi ar gyfer LTT a LDT ac yn darparu gwybodaeth am effaith mabwysiadu'r cyfraddau i drethdalwyr a'r refeniw y bydd y cyfraddau'n ei godi yn ôl y rhagolygon.
- A2. Mae datganoli pwerau trethi yn cynnig ystod o gyfleoedd i Lywodraeth Cymru ddatblygu dull Cymreig o fynd ati i ymdrin â threthiant i ddiwallu anghenion a blaenoriaethau dinasyddion yng Nghymru. Mae fframwaith polisi trethi<sup>25</sup> Llywodraeth Cymru'n amlinellu ein dull gweithredu strategol o ran trethi Cymreig. Mae'r fframwaith a'i egwyddorion trethi wedi arwain datblygiad y cyfraddau a'r bandiau trethi.
- A3. Wrth ddatblygu'r trethi newydd, un o'r prif amcanion fu cynnig sefydlogrwydd i drethdalwyr. Mae cyfraddau trethi'r trethi blaenorol felly'n ystyriaethau perthnasol wrth bennu cyfraddau'r trethi datganoledig. Er mwyn cynnig sefydlogrwydd, yr agwedd a gymerwyd wrth bennu'r cyfraddau fu na ddylai'r cyfraddau trethi datganoledig fod yn wahanol i gyfraddau'r trethi blaenorol i'r graddau sy'n angenrheidiol i adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau Cymru.
- A4. Mae'r bwysig cydnabod y bydd trethi datganoledig yn helpu i ariannu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yn unol â hynny, mae angen i benderfyniadau ar gyfraddau a bandiau trethi gael eu gwneud gyda hyn mewn cof, gan ystyried effaith unrhyw gynnydd o ran refeniw. Bydd y refeniw o LTT ac LDT yn rhan o gyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru o 2018-19. Ar yr un pryd, mae'r cyllid y mae Llywodraeth Cymru yn ei gael gan Lywodraeth y DU yn cael ei dorri i gyfrif am y refeniw trethi y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ildio o ganlyniad i ddatganoli treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi i Gymru. Felly, effaith gyffredinol LTT a LDT ar Gyllideb Llywodraeth Cymru yw'r gwahaniaeth rhwng y refeniw trethi a'r addasiad i'r grant bloc.
- A5. Cytunwyd ar ddull yr addasiad i'r grant bloc rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraethau Cymru yn Rhagfyr 2016 fel rhan o'r fframwaith cyllidol. Ar gyfer blwyddyn gyntaf datganoli, caiff hyn ei amcangyfrif trwy ddefnyddio rhagolygon o refeniw treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi yng Nghymru ar gyfer 2017-18 wedi'u cynyddu gan y rhagamcan o'r twf yn refeniw'r ddwy dreth yng ngweddill y DU rhwng 2017-18 a 2018-19. Y rhagolygon a ddefnyddir fydd y rhai a gyhoeddir gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol adeg Cyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU 2017.
- A6. Ar gyfer cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19, defnyddiwyd rhagolygon diweddaraf OBR (Mawrth 2017) o refeniw i amcangyfrif yr addasiad i'r grant bloc. Rhagwelir y caiff y rhagolygon hyn eu diwygio ar gyfer Cyllideb yr Hydref

<sup>25</sup> <http://gov.wales/docs/caecd/publications/170612-framework-cy.pdf>

ar 22 Tachwedd ac y gallai fod newid sylweddol os bydd Llywodraeth y DU'n newid polisi treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi mewn ffordd sy'n effeithio ar refeniw - er enghraifft trwy newid cyfraddau trethi. Byddai newid o'r fath yn newid yr addasiad i'r grant bloc ac felly adnoddau net Llywodraeth Cymru. Os bydd yr addasiad i'r grant bloc yn newid yn sylweddol, byddai'n briodol ailedrych ar y cyfraddau trethi ar gyfer LTT ac LDT. Bydd Llywodraeth Cymru'n ailasesu sut y byddai symud at gyfraddau LTT ac LDT yn effeithio ar drethdalwyr ac yn edrych ar sut y mae'r newid yn y dreth yn effeithio ar ei hadnoddau cyffredinol. Ar ôl ystyried y materion hyn bydd Llywodraeth Cymru wedyn yn penderfynu a ddylai cyfraddau'r trethi datganoledig newid a sut.

- A7. Dyna a ddigwyddodd cyn i dreth dir y dreth stamp gael ei datganoli yn yr Alban. Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban gyfraddau treth trafodiadau tir ac adeiladau (LBTT) cyn Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU 2014, a newidiodd gyfraddau treth dir y dreth stamp. Wedyn newidiodd Llywodraeth yr Alban gyfraddau LBTT yn Ionawr 2015, cyn i LBTT ddisodli treth dir y dreth stamp yn Ebrill 2015.
- A8. Heblaw refeniw i ariannu gwasanaethau cyhoeddus, mae'r cyd-destun y mae'r dreth yn gweithredu o'i fewn yn dylanwadu ar yr ystyriaethau perthnasol wrth bennu cyfraddau trethi. Felly, mae'r adrannau canlynol yn darparu gwybodaeth bellach am bob treth yn ei thro, gan amlinellu'r materion a ystyrir wrth bennu cyfraddau trethi sy'n briodol i Gymru ac effaith mabwysiadu'r cyfraddau a bennir ar gyfer trethdalwyr a refeniw.
- A9. Yn dilyn Cyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU, bydd Llywodraeth Cymru'n gosod rheoliadau i bennu'r cyfraddau a'r bandiau, y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn craffu arnynt ac yn penderfynu arnynt. Y cyfraddau a'r bandiau yn y papur hwn yw'r rhai y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu eu pennu trwy reoliadau, ar yr amod nad oes angen newidiadau yn dilyn Cyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU; cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol i Gyllideb Llywodraeth Cymru a chymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer y rheoliadau.

## **Y dreth trafodiadau tir**

- A10. Mae'r dreth trafodiadau tir (LTT) yn dreth ar drafodiadau tir ac eiddo sy'n daladwy pan fydd person neu gwmni:
- Yn prynu eiddo rhydd-ddaliadol;
  - Yn prynu lesddaliad amhreswyl newydd neu bresennol; neu
  - Yn trosglwyddo tir neu eiddo yn gyfnewid am dâl (er enghraifft, prynu cyfranddaliad mewn tŷ).
- A11. Bydd yn disodli treth dir y dreth stamp pan gaiff ei datganoli i Gymru yn Ebrill 2018 i alluogi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i barhau i elwa ar y refeniw a godir gan y dreth. Fel gyda threth dir y dreth stamp, mae cyfraddau ar wahân ar gyfer trafodiadau preswyl ac amhreswyl. Yn achos trafodiadau preswyl ceir prif gyfradd a chyfradd uwch ar gyfer prynu eiddo preswyl lle mae'r prynwr eisoes yn berchen ar un neu ragor o eiddo preswyl. Yn achos

trafodiadau amhreswyl, ceir prif gyfradd ar gyfer trafodiadau rhydd-ddaliadol a phremiymau lesioedd a chyfradd ar wahân ar gyfer rhenti lesioedd.

- A12. Mae Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i LTT fod yn dreth raddedig. Ar gyfer pob set o gyfraddau, rhaid cael band cyfradd sero a rhaid i'r gyfradd dreth ar gyfer pob band uwchlaw'r band cyfradd sero fod yn uwch nag ar gyfer y band o dano. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r cyfraddau trethi fod yn uwch ar gyfer eiddo pris uchel nag ar gyfer eiddo pris isel. Wrth bennu'r cyfraddau, mae cyfle i ymestyn natur raddedig LTT o'i chymharu â threth dir y dreth stamp.
- A13. Ym Medi 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur y Trysorlys *Y Dreth Trafodiadau Tir: pennu cyfraddau a bandiau*, a oedd yn aminellu'r materion allweddol ac yn gosod y fframwaith ar gyfer ein dull o fynd ati i bennu cyfraddau a bandiau sy'n briodol i Gymru.<sup>26</sup>
- A14. Mae'r dull o fynd ati i bennu'r cyfraddau a'r bandiau ar gyfer LTT wedi cael ei harwain gan dri mater trosfwaol yn gymharol i dreth dir y dreth stamp. Sef:
- y dylai cyfraddau LTT adlewyrchu amgylchiadau a blaenoriaethau Cymru;
  - y dylai referniw cyffredinol gael ei gadw i barhau i ariannu gwasanaethau cyhoeddus;
  - y dylai LTT fod yn fwy graddedig, lle bo modd.
- A15. Ymchwiliwyd i'r dull o fynd ati i bennu cyfraddau trethi gyda rhanddeiliaid fel rhan o ymgynghoriad 2015, *Datganoli Trethi i Gymru - Treth Trafodiadau Tir*, ac mewn digwyddiadau ymgysylltu pellach wrth ddatblygu'r dreth. Casglwyd barn rhanddeiliaid hefyd yn ystod hynt Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017. Cafwyd consensws cyffredinol mai mater i Lywodraeth Cymru yw pennu'r cyfraddau ond y dylid rhoi ystyriaeth i natur y farchnad eiddo yng Nghymru ac effaith bosibl unrhyw newidiadau i gyfraddau trethi

### **Cyfraddau preswyl a chyfraddau uwch ar eiddo preswyl ychwanegol**


- A16. Gan mai treth ar drafodiadau tir ac eiddo yw LTT, agweddau pwysig y sylfaen drethi yw nifer y trafodiadau a'u prisiau. Mae'r rhain yn ystyriaethau pwysig wrth bennu'r gwerthoedd priodol ac wedyn amcangyfrif y referniw sy'n deillio o'r cyfraddau hyn.
- A17. Mae ffigur un yn dangos y data a'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer nifer y trafodiadau preswyl yng Nghymru. Yn 2015-16 cafwyd 53,000 o achosion. Adeg datganoli trethi yn 2018-19, mae nifer rhagolygonol trafodiadau ychydig yn is, sef 52,000. Mae hyn yn dynodi adferiad nodedig ers argyfwng ariannol 2008-09 ond mae'n dal yn sylweddol is na 2006-07<sup>27</sup> pan oedd mwy na 70,000 o drafodiadau preswyl yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod hwn cafwyd rhai effeithiau yn sgil newidiadau i gyfraddau trethi o fewn treth dir y dreth

<sup>26</sup> ar gael yn <http://gov.wales/docs/caecd/publications/160915-ltt-bands-cy.pdf>

<sup>27</sup>Y flwyddyn gyntaf y mae data ar gael gan CThEM.

stamp; rhagwelir y bydd mabwysiadu cyfraddau trethi LTT yn cael rhywfaint o effaith ar nifer y trafodiadau. Trafodir hyn yn fanylach isod.

**Ffigur A1: Trafodiadau preswyl yng Nghymru 2006-07 i 2018-19**




Ffynhonnell: Ystadegau Treth Stamp Blynyddol CThEM, 2007 i 2016.

Rhagolygon trafodiadau 2016-17 i 2018-19 ar sail twf preswyl y DU, OBR, gweler Tabl 4.1 o OBR (2017) sydd ar gael yn <http://budgetresponsibility.org.uk/download/march-2017-economic-and-fiscal-outlook-charts-and-tables-fiscal/>

- A18. Y penderfynydd pwysig arall ar gyfer cyfraddau LTT yw prisiau eiddo preswyl. Mae prisiau tai wedi codi i raddau helaeth o tua £42,000 yn 1995-96 i £146,000 yn 2016-17, yn ôl Mynegai Prisiau Tai ONS i Gymru. Roedd y pris cyfartalog yn 2016-17 ychydig o dan anterth 2007-08. Mae'r adferiad rhannol ym mhreis eiddo ar gyfartaledd (mewn termau enwol) yn cyferbynnu â thrafodiadau sydd dipyn yn is o hyd na'r lefelau cyn y dirwasgiad. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhagamcanu y bydd prisiau tai'n parhau i godi. Mae cymhwyso'r gyfradd hon i Gymru'n cynyddu pris cyfartalog tŷ i ryw £160,000 erbyn 2018-19 - y tu hwnt i'r pris enwol uchaf yn 2007-08.

**Ffigur A2: Pris cyfartalog tŷ yng Nghymru 1995-6 i 2018-19**



Ffynhonnell: Mynegai Prisiau Tai ONS , data ar gael yn

<http://landregistry.data.gov.uk/app/ukhpi>


Rhagolwg o brisiau tai 2017-18 i 2018-19 ar sail twf preswyl y DU, OBR, gweler Tabl 4.1 o OBR (2017) sydd ar gael yn <http://budgetresponsibility.org.uk/download/march-2017-economic-and-fiscal-outlook-charts-and-tables-fiscal/>

- A19. Wrth i brisiau tai barhau i godi, ceir diddordeb cynyddol yng ngallu pobl i fforddio prynu eu cartref eu hunain. Mae'r data blynyddol diweddaraf o fynegai prisiau tai ONS yn dangos mai'r pris cyfartalog i brynwr tro cyntaf oedd £126,000 yn 2016-17 yng Nghymru, i fyny o tua £110,000 yn 2012-13 (y data cynharaf sydd ar gael). Gan ddefnyddio rhagolwg prisiau tai'r DU (Mawrth 2017) amcangyfrifir y bydd hyn yn codi i £139,000 yn 2018-19.
- A20. Mae ffigurau un a dau'n dangos bod trafodiadau a phrisiau wedi symud yn sydyn dros y blynyddoedd diwethaf, gan ddynodi'r potensial ar gyfer gwamalrwydd referniw, gan ei gwneud yn heriol rhagamcanu referniw trethi.
- A21. Yn ychwanegol at bris cyfartalog tŷ, mae lledaeniad trafodiadau ar draws y dosbarthiad prisiau hefyd yn bwysig. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer systemau trethi graddedig - megis treth dir y dreth stamp ac LTT - lle mae cyfraddau trethi yn uwch ar gyfer eiddo pris uchel nag ar gyfer eiddo pris isel. Mae'r gyfran o drafodiadau pris uchel yn cael effaith fwy ar referniw.
- A22. Mae ffigur tri'n dangos dosbarthiad y prisiau ar gyfer trafodiadau preswyl yng Nghymru yn 2015 (y data diweddaraf sydd ar gael). Mae hyn yn dangos bod ychydig dros 75% o drafodiadau yn is na £200,000; felly roedd y mwyafrif o'r trafodiadau ym mhen isaf y dosbarthiad prisiau. Er hynny, roedd nifer mawr o

drafodiadau pris uchel, gyda llai na 10% o drafodiadau yn uwch na £300,000 ac ychydig yn fwy na 2% wedi'u priso'n £450,000 neu fwy.

- A23. Yn wyneb y rhagolygon o dwf prisiau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, bydd y canrannau hyn yn newid wrth i ragor o eiddo symud i'r bandiau pris uwch. Er hynny, nid yw proffil cyffredinol trafodiadau eiddo preswyl yng Nghymru'n debygol o newid llawer dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

**Ffigur A3: Dosbarthiad prisiau eiddo preswyl yng Nghymru, 2015-16**



Ffynhonnell: Seilir y cyfrifiadau ar setiau data gweinyddol CThEM.

- A24. Pennwyd y cyfraddau trethi ar gyfer LTT breswyl i gymryd i ystyriaeth nodweddion marchnad eiddo preswyl Cymru, fel yr amlinellir uchod. Rydym wedi defnyddio'r egwyddor y dylid codi treth yn fwy graddedig mewn perthynas â phrisiau tai a chyfraddau presennol treth dir y dreth stamp. Dangosir y cyfraddau trethi trafodiadau preswyl yn nhabl A1, isod.

**Tabl A1: Cyfraddau preswyl LTT**

<b>Trothwy pris</b>	<b>Cyfradd LTT</b>
£0-£150k	0%
£150k-£250k	2.5%
£250k-£400k	5.0%
£400k-£750k	7.5%
£750k-£1.5m	10.0%
£1.5m ac uwch	12.0%


- A25. Gan fod LTT yn disodli treth dir y dreth stamp, mynegir effaith mabwysiadu'r cyfraddau hyn yn fwyaf clir trwy eu cymharu â chyfraddau trethi presennol treth dir y dreth stamp, a ddangosir at ddibenion cyfeirio yn nhabl 2 isod.

**Tabl A2: cyfraddau trethi preswyl treth dir y dreth stamp**

<b>Trothwy pris</b>	<b>Cyfradd SDLT</b>
£0-£125k	0%
£125k-£250k	2%
£250k-£925k	5%
£925k-£1.5m	10%
£1.5m ac uwch	12%

- A26. I wneud y cyfraddau preswyl yn fwy graddedig, mae'r pris eiddo y daw treth yn daladwy arno yn uwch yn achos LTT na threth dir y dreth stamp. Mae addasu'r cyfraddau a'r bandiau ar gyfer trafodiadau pris uwch yn cynnal refeniw. Er mwyn helpu i bontio'n ddiraffferth i'r dreth newydd, mae'r gwahaniaeth rhwng cyfraddau LTT a chyfraddau treth dir y dreth stamp bresennol yn gymharol fach.
- A27. Gan fod treth dir y dreth stamp ac LTT yn defnyddio cyfraddau trethi ymylol - lle mae'r gyfradd dreth yn gymwys yn unig i werth yr eiddo sydd o fewn y band - nid yw'n syml cymharu systemau trethi trwy edrych ar y cyfraddau ymylol.
- A28. Ffordd amgen o gymharu cyfraddau trethi yw yn ôl prisiau eiddo a'r gyfradd dreth gyfartalog. Y gyfradd dreth gyfartalog yw cyfanswm y dreth wedi'i rhannu gan bris yr eiddo. Dangosir hyn yn y ffigur isod.

**Ffigur A4: Cyfraddau trethi cyfartalog SDLT ac LTT preswyl**



- A29. Mae'r ffigur yn dangos bod gan dreth dir y dreth stamp ac LTT gyfradd dreth gyfartalog sero o dan £125,000, gan fod y trothwyon cyfradd sero ar gyfer y ddwy dreth yn gymwys yma. Yng Nghymru, rhagwelir y bydd tua 30% o drafodiadau yn y band hwn yn 2018-19 pan fydd cyfraddau LTT yn gymwys yn gyntaf.
- A30. Yn achos prisiau pwrcasu rhwng £125,000 a £150,000, byddai treth dir y dreth stamp yn gorfod cael ei thalu hyd at uchafswm o £500. Yn achos LTT, ni fydd unrhyw dreth yn atebol. Gan y rhagwelir mai £139,000 fydd y pris tro cyntaf cyfartalog i brynwyr yn 2018-19, ni fydd unrhyw LTT yn daladwy ar y pris tro cyntaf cyfartalog i brynwyr, ond byddai £280 yn daladwy o dan dreth dir y dreth stamp.
- A31. O £150,000, daw LTT yn atebol. Yn 2018-19, rhagwelir na fydd 45% o drafodiadau preswyl yn gymwys am LTT. Mae hyn yn golygu y bydd nifer y trafodiadau nad ydynt yn talu unrhyw dreth yn cynyddu rhyw 7,000 neu 50% o'i gymharu â threth dir y dreth stamp.
- A32. Yn achos trafodiadau preswyl rhwng £150,000 a £250,000, bydd y dreth sy'n atebol o dan LTT yn is na threth dir y dreth stamp, er gwaethaf y gyfradd dreth uwch o 2.5%. Y rheswm dros hyn yw bod y gyfradd dreth yn gymwys yn unig ar y gwerth uwchlaw £150,000. Er enghraifft, ar bris cyfartalog a ragwelir o £160,000 ar gyfer tŷ bydd yr LTT sy'n daladwy'n llai na threth dir y dreth stamp. Bydd yr LTT a fydd yn ddyledus yn £250 (2.5% o'r gwahaniaeth rhwng £150,000 a £160,000), tra byddai treth dir y dreth stamp yn £700 (2% o'r gwahaniaeth rhwng £125,000 a £160,000).

- A33. Ar gyfer yr holl drafodiadau rhwng £250,000 a £400,000 bydd y rhwymedigaeth drethi yr un peth ar gyfer LTT a threth dir y dreth stamp. Er enghraifft, yn achos trafodiad o £250,000 byddai'r dreth sy'n ddyledus yn £2,500 ar gyfer LTT a threth dir y dreth stamp. Yn yr un ffordd, câi pryniant o £400,000 ei drethu'n £10,000 yn y ddau achos.
- A34. Ar gyfer trafodiadau o £400,000 i fyny, bydd y rhwymedigaeth drethi yn uwch o dan LTT na threth dir y dreth stamp. Yn 2018-19 rhagwelir y bydd hyn yn effeithio ar y 6% uchaf o drafodiadau. Yn achos trafodiad o £500,000, y rhwymedigaeth drethi o dan LTT fydd £17,500 o'i gymharu â £15,000 o dan dreth dir y dreth stamp. Disgwylir i trafodiadau o £500,000 ac yn uwch gyfrif am 3% o'r holl drafodiadau yn 2018-19.
- A35. Rhagwelir y bydd y 1% uchaf o drafodiadau'n cael eu priso'n £650,000 ac yn uwch. Ar £650,000 yr LTT sy'n ddyledus fydd £28,750 o'i gymharu â £22,500 o dan dreth dir y dreth stamp. Ar gyfer £925,000 ac yn uwch, y gwahaniaeth rhwng treth dir y dreth stamp ac LTT yw £17,500.
- A36. At ei gilydd yn 2018-19 amcangyfrifir y bydd 69% o drafodiadau a fyddai wedi cael eu trethu o dan dreth dir y dreth stamp (25,000 o trafodiadau) yn talu llai o dreth o dan LTT ac y bydd 8% (3,000 o drafodiadau) yn talu mwy.
- A37. Disgwylir i newidiadau mewn cyfraddau trethi effeithio ar brisiau a thrafodiadau. Bydd yr effaith yn groes i'r newid yn y rhwymedigaeth drethi rhwng treth dir y dreth stamp ac LTT. Er enghraifft, os yw LTT yn is na threth dir y dreth stamp, wedyn disgwylir i brisiau a trafodiadau fod yn uwch nag y byddent wedi bod fel arall, a vice versa.
- A38. Cyfrifir effaith y newid mewn cyfraddau trethi o dreth dir y dreth stamp i LTT ar brisiau a thrafodiadau gan ddefnyddio amcangyfrifon OBR. Seilir y rhain ar effaith ymddygiadol y diwygiadau a'r newidiadau o gyfraddau treth dir y dreth stamp yn Rhagfyr 2015.<sup>28</sup> Cyfrifir effaith y newid yn y dreth ar bob cyfng o £5,000 ar draws y dosbarthiad prisiau preswyl cyfan am ei fod yn amrywio ar draws y dosbarthiad prisiau.
- A39. Rhwng £125,000 a £250,000, lle mae LTT yn is na threth dir y dreth stamp, disgwylir i gyfraddau LTT gynyddu prisiau a thrafodiadau. Mae'r effaith a amcangyfrifir yn fach ar gyfer prisiau a thrafodiadau ac mae'r effaith gyffredinol ar refeniw yn llai na £0.5m. Nid oes effaith ar brisiau a thrafodiadau rhwng £250,000 a £400,000 gan fod y rhwymedigaeth drethi yr un peth ar gyfer LTT a threth dir y dreth stamp.
- A40. O £400,000 i fyny, mae LTT yn uwch na threth dir y dreth stamp. O ganlyniad, yr effaith yw lleihau ychydig ar nifer y trafodiadau a phrisiau. Amcangyfrifir bod y gostyngiad mewn trafodiadau'n llai na 0.1% o gyfanswm nifer y trafodiadau yn 2018-19. Er hynny, yn wahanol i drafodiadau gwerth isel, mae'r trafodiadau hyn yn cynhyrchu cyfran sylweddol o drethi, felly amcangyfrifir y bydd effaith

---

<sup>28</sup> Gweler OBR (2015) <http://budgetresponsibility.org.uk/download/stamp-duty-land-tax-policy-costing-elasticities-december-2014/>

gyfunol prisiau a thrafodiadau'n gostwng rhyw £3m ar refeniw. At ei gilydd effaith net cynyddu'r cyfraddau trethi ar gyfer eiddo sy'n werth mwy na £400,000 yw cynyddu rhyw £10m ar refeniw, hyd yn oed ar ôl i'r effeithiau negyddol ar drafodiadau a phrisiau gael eu cynnwys.

- A41. At ei gilydd, disgwylir i gyfraddau LTT preswyl gynhyrchu refeniw o £145m cyn ystyried effeithiau ymddygiadol. Mae'r effeithiau hyn yn gostwng £3m ar y cyfanswm hwn.
- A42. Rhagwelir y bydd rhywfaint o achub y blaen (*forestalling*) o ganlyniad i gyhoeddi'r cyfraddau a'r bandiau cyn Ebrill 2018. Ni ddylai'r math hwn o newid ymddygiadol ond effeithio ar 2018-19, gan y disgwylir i drafodiadau gael eu dwyn ymlaen i 2017-18 er mwyn cymhwyso cyfraddau treth dir y dreth stamp a defnyddio system weinyddu gyfarwydd CThEM. Disgwylir i'r effaith hon fod yn niwtral o safbwynt y gyllideb gan y caiff y gostyngiad mewn refeniw LTT ei wrthbwyso gan refeniw ychwanegol treth dir y dreth stamp yn 2017-18. Rhagdybir y bydd Llywodraeth y DU'n ad-dalu Llywodraeth Cymru gyda'r refeniw trethi ychwanegol ar gyfer treth dir y dreth stamp sy'n deillio o achub y blaen.
- A43. Gan gymryd yr holl ffactorau hyn i ystyriaeth, rhagwelir mai'r refeniw net o'r prif gyfraddau preswyl yw £142m yn 2018-19 (tabl A3).

**Tabl A3: Amcangyfrif refeniw prif gyfraddau preswyl LTT ar gyfer 2018-19**

<b>Elfen</b>	<b>£m</b>
Cyn ystyried effeithiau ymddygiadol	145
Effaith ymddygiadol ar drafodiadau a phrisiau	-3
<b>Net</b>	<b>142</b>

### **Cyfraddau trethi uwch ar gyfer eiddo preswyl ychwanegol**

- A44. O dan dreth dir y dreth stamp ac LTT, bydd cyfradd uwch yn gymwys pan fydd rhywun yn prynu o dan eiddo preswyl ychwanegol. Cafodd y cyfraddau uwch ar gyfer treth dir y dreth stamp yn Ebrill 2016 - mae tystiolaeth gyfyngedig felly ar hyn o bryd am effaith y cyfraddau uwch yng Nghymru. Bydd cyfradd uwch LTT yn 3% yn ychwanegol ar ben y prif gyfraddau trethi preswyl - yr un faint â'r gyfradd uwch bresennol ar gyfer treth dir y dreth stamp. Er hynny, bydd cyfanswm y dreth a delir ar eiddo preswyl ychwanegol yn wahanol i'r hyn a delir o dan drefn treth dir y dreth stamp gan fod y cyfraddau uwch yn ychwanegol at brif gyfraddau trethi, sy'n wahanol o dan y drefn LTT newydd i'r rhai a gymhwysir o dan dreth dir y dreth stamp (gweler tablau A1 ac A2 uchod).
- A45. Ar gyfer trafodiadau eiddo preswyl hyd at £400,000, bydd yr LTT a fydd yn ddyledus yr un peth neu'n llai na threth dir y dreth stamp ac yn achos trafodiadau o £400,000, ac yn uwch, bydd yr LTT a fydd yn ddyledus yn uwch na threth dir y dreth stamp.

- A46. Er enghraifft, ar gyfer trafodiad eiddo preswyl ychwanegol sy'n atebol am y cyfraddau uwch yn £160,000 yr LTT a fydd yn ddyledus fydd £5,050, o'i gymharu â £5,500 o dan dreth dir y dreth stamp. Ar gyfer trafodiad eiddo preswyl ychwanegol o £500,000, yr LTT a fydd yn ddyledus fydd £32,500 o'i gymharu â threth dir y dreth stamp o £30,000.
- A47. Yn 2018-19, amcangyfrifir y bydd y cyfraddau uwch yn cynhyrchu refeniw o £63m, gan gymryd i ystyriaeth rai effeithiau ymddygiadol bach ond cyn ystyried ad-daliadau.
- A48. Gellir ad-dalu'r dreth ychwanegol a delir o dan y cyfraddau uwch os bydd y prynwr yn gwerthu ei brif breswylfa ac os daw'r eiddo y mae'r cyfraddau uwch yn gymwys iddo'n brif breswylfan iddynt cyn pen 26 mis ar ôl prynu'r eiddo (yr un peth â gyda threth dir y dreth stamp ). Amcangyfrifir y caiff 15% o refeniw bob blwyddyn o'r cyfraddau uwch ei ad-dalu dros y 26 mis dilynol. Felly, o'r refeniw a gesglir yn 2018-19, amcangyfrifir y caiff £9m ei ad-dalu dros y tair blynedd ddilynol. Cyfrifir am hyn yn 2018-19 gan ei fod yn ymwneud â'r trafodiadau a ddigwyddodd yn y flwyddyn honno. Rhagwelir mai'r refeniw net o'r cyfraddau preswyl yw £53m yn 2018-19 (tabl A4).

**Tabl A4: Amcangyfrif refeniw cyfraddau uwch preswyl LTT ar gyfer 2018-19**

<b>Elfen</b>	<b>£m</b>
Refeniw cyn ad-daliadau	63
Refeniw sy'n cael ei ad-dalu	-9
<b>Refeniw net</b>	<b>53</b>

(Efallai na ddaw i gyfanswm oherwydd talgrynnu)


### **Cyfraddau amhreswyl**

- A49. Ceir mesur uchel o ansicrwydd yn y rhagolygon economaidd ar gyfer gweithgarwch masnachol, sy'n debygol o leihau buddsoddiad mewn busnes, gan gynnwys trosglwyddo eiddo a thir. Mater i'r DU gyfan yw hwn ond mae angen ei gadw mewn cof wrth ystyried cyfraddau trethi yng Nghymru, yn enwedig y rhai sy'n gymwys i gaffael a phrydlesu eiddo a thir.
- A50. Fel gyda chyfraddau preswyl, mae nifer y trafodiadau a phrisiau eiddo'n ystyriaethau pwysig ar gyfer pennu cyfraddau LTT amhreswyl. Ceir dwy ystyriaeth bellach sy'n arbennig o bwysig - dosbarthiad prisiau trafodiadau amhreswyl a'r lefel o integreiddio sydd rhwng economi Cymru ag economi gweddill y DU.
- A51. Mae i ddosbarthiad prisiau trafodiadau amhreswyl ddwy nodwedd neilltuol. Mae cyfran fawr o drafodiadau gweddol isel o ran eu pris, a'r mwyafrif yn llai na throthwy treth dir y dreth stamp o £150,000. Mae hyn yn adlewyrchu'n rhannol gyfansoddiad trafodiadau, y bydd llawer ohonynt yn eiddo lesddaliadol newydd gyda rhywfaint o daliad neu bremiwm yn cael ei dalu'n

uniongyrchol, yn ogystal â thaliad rhent rheolaidd y les. Yn y mwyafrif o achosion mae'r premiwm yn debygol o fod yn gymharol isel o ran ei werth. Bydd y gyfran uchel o drafodiadau cymharol isel o ran eu gwerth yn adlewyrchu'r ffaith bod cyfran fawr o fusnesau'n fach neu ganolig eu maint ac yn tueddu i weithredu o eiddo cymharol fach.

A52. Yr ail nodwedd neilltuol yw'r gyfran fawr o drafodiadau sydd wedi'u prasio'n £500,000 neu'n uwch. O'r rhai sydd wedi'u prasio'n £150,000 neu'n uwch - trothwy presennol amhreswyl treth dir y dreth stamp - roedd 30% o drafodiadau yng Nghymru yn 2015-16 yn cael eu prasio'n £500,000 neu'n uwch. Felly, mae trafodiadau eiddo pris uchel iawn yn gyfran sylweddol o'r farchnad a byddant hefyd yn gyfran fawr iawn o refeniw trethi. Mae hyn yn wahanol i drafodiadau preswyl yng Nghymru, lle mae'r mwyafrif helaeth o drafodiadau ym mhen isaf y dosbarthiad prisiau.

**Ffigur A5: Dosbarthiad prisiau trafodiadau amhreswyl yng Nghymru, 2015-16**



Ffynhonnell: Seilir y cyfrifiadau ar setiau data gweinyddol CThEM.

DS mae'r trafodiadau'n hepgor trafodiadau lesddaliadol newydd lle treth yn unig a delir ar renti lesddaliadol.

A53. Mae economi Cymru wedi'i hintegreiddio'n helaeth â gweddill economi'r DU, sy'n golygu y gall busnesau sy'n buddsoddi yn y DU fod yn fwy symudol ac yn ddifater yn ddaearyddol o ran i ba wlad o'r DU neu ranbarth o Loegr y maent yn perthyn. Felly, gallai newidiadau sylweddol mewn trethi mewn un ardal fod yn ddatgymhelliad i fuddsoddi, gyda busnesau'n dewis lleoli mewn ardal debyg neu gyffiniol sy'n codi treth is. Mae hyn yn awgrymu bod terfynau o ran i ba raddau y gall cyfraddau LTT a threth dir y dreth stamp fod yn wahanol ar

gyfer trafodiadau amhreswyl heb effeithio'n sylweddol ar y farchnad, referniw a'r economi ehangach.

- A54. Mae'r cyfraddau trethi ar gyfer LTT amhreswyl yn ystyried nodweddion ac economi Cymru a'r egwyddor y dylai'r dreth gael ei chodi ar lefel fwy graddedig mewn perthynas â gwerth eiddo a chyfraddau treth dir y dreth stamp cyffredinol. Dangosir y prif gyfraddau ar gyfer LTT preswyl isod.

**Tabl A6: Prif gyfraddau eiddo amhreswyl LTT**

Trothwy pris	Cyfradd LTT
£0-£150k	0%
£150k-£250k	1%
£250k-£1m	5%
£1m ac yn uwch	6%


- A55. Dangosir y prif gyfraddau ar gyfer treth dir y dreth stamp amhreswyl, at ddibenion cymharu, isod:

**Tabl A7: Prif gyfraddau eiddo amhreswyl treth dir y dreth stamp**

Trothwy pris	Cyfradd SDLT
£0-£150k	0%
£150k-£250k	2%
£250m ac yn uwch	5%

- A56. Mae mabwysiadu cyfradd dreth is na threth dir y dreth stamp ar gyfer y band cyntaf lle y mae treth yn daladwy yn golygu bod cyfraddau amhreswyl LTT yn fwy graddedig. Mae band uchaf newydd wedi'i ychwanegu, er mwyn cynnal referniw. Gan adlewyrchu integreiddiad economi Cymru ag economi gweddill y DU ac i helpu i sicrhau bod y cyfnod pontio i'r dreth newydd mor ddidrafferth â phosibl, mae'r gwahaniaeth rhwng cyfraddau LTT amhreswyl a threth dir y dreth stamp yn gymharol fach. Mae'r newidiadau i drethi hefyd yn sicrhau cysondeb â'r trothwy dechreuol ar gyfer trafodiadau preswyl a'r gyfradd ddechreuol a'r trothwy ar gyfer rhenti lesioedd amhreswyl.
- A57. I helpu i gymharu cyfraddau trethi LTT â chyfraddau perthnasol treth dir y dreth stamp, mae'r ffigurau isod yn dangos y gyfradd drethi gyfartalog a delir yn ôl pris eiddo.

**Ffigur A8: Cyfraddau trethi cyfartalog treth dir y dreth stamp ac LTT preswyl**



- A58. O dan dreth dir y dreth stamp ac LTT, ni thelir unrhyw dreth ar drafodiadau rhydd-ddaliad amhreswyl, trosglwyddiadau aseinio neu bremiwm lesddaliadol o dan £150,000. Amcangyfrifir y bydd tua 60% o drafodion amhreswyl trethiannol yn is na'r trothwy o £150,000 yn 2018-19.
- A59. Gan fod LTT yn dechrau gyda chyfradd dreth is, bydd yr holl drafodiadau o £150,000 hyd at £1.1m yn talu llai o dreth - hyd at £1,000 - o'i gymharu â threth dir y dreth stamp. Felly bydd tua 30% o drafodiadau trethadwy'n talu llai o dan LTT na threth dir y dreth stamp. Er enghraifft, byddai gan drafodiad o £250,000 rwymedigaeth drethi o £2,000 o dan dreth dir y dreth stamp ond ni chaiff ei drethu ond £1,000 o dan LTT a byddai trafodiad o 500,000 yn gweld ei rwymedigaeth trethi'n gostwng o £14,500 o dan dreth dir y dreth stamp i £13,500 o dan LTT.
- A60. O £1.1 i fyny, mae LTT yn uwch na threth dir y dreth stamp. Amcangyfrifir y bydd llai na 10% o drafodiadau amhreswyl yn 2018-19 yng Nghymru'n talu treth dir y dreth stamp. Er enghraifft, byddai gan drafodiad o £2m rwymedigaeth drethi o £89,450 o dan dreth dir y dreth stamp a bydd yn talu £98,440 o dan LTT; a byddai trafodiad o £5m yn gweld ei rwymedigaeth trethi'n codi o £239,500 o dan dreth dir y dreth stamp i £278,500 o dan LTT.
- A61. Fel yn achos newidiadau i gyfraddau trethi preswyl, bydd codiadau yng nghyfraddau trethi o dreth dir y dreth stamp i LTT yn lleihau prisiau a nifer y trafodiadau amhreswyl, neu vice versa lle mae cyfraddau trethi'n gostwng.

- A62. Amcangyfrif maint yr effeithiau hyn gan ddefnyddio effeithiau ymddygiadol OBR<sup>29</sup> ynghyd ag amcangyfrif o'r newid yn y dreth ar draws y dosbarthiad prisiau amhreswyl.
- A63. Yn achos trafodiadau lle ceir gostyngiad yn y dreth o dreth dir y dreth stamp i LTT (rhwng £150,000 a £1.1m) bydd pris a nifer y trafodiadau hyn yn cynyddu. Er hynny, mae'r effeithiau a amcangyfrifir yn fach ar gyfer prisiau a thrafodiadau ac mae'r effaith gyffredinol ar refeniw yn llai na £0.1m.
- A64. Yn achos trafodiadau lle ceir cynnydd mewn trethi, mae'r effeithiau'n gweithio i'r gwrthwyneb, gan leihau prisiau ac amllder trafodiadau. Er mai cymharol ychydig o drafodiadau fydd â chynnydd yn eu treth, am eu bod yn uchel o ran eu gwerth, bydd y rhwymedigaethau trethi hefyd yn gymharol uchel felly bydd effaith llai o drafodiadau ar refeniw yn fwy. Amcangyfrifir y bydd effaith gyfunol prisiau a thrafodiadau'n gostwng rhyw £7m ar refeniw. At ei gilydd effaith net cynyddu'r cyfraddau trethi ar gyfer eiddo sy'n werth mwy na £1.1 yw cynyddu rhyw £5m ar refeniw, hyd yn oed ar ôl i'r effeithiau negyddol ar drafodiadau a phrisiau gael eu cynnwys.
- A65. At ei gilydd yn 2018-19, disgwylir i gyfraddau LTT preswyl gynhyrchu refeniw o £71m cyn ystyried effeithiau ymddygiadol. Amcangyfrifir y bydd effaith y newid mewn treth rhwng treth dir y dreth stamp ac LTT ar brisiau a thrafodiadau yn gostwng £7m ar y refeniw hwn.
- A66. Rhagwelir y bydd rhywfaint o achub y blaen o ganlyniad i gyhoeddi'r cyfraddau a'r bandiau cyn Ebrill 2018. Disgwylir i'r math hwn o newid ymddygiadol fod yn gyfyngedig i 2018-19, wrth i drafodiadau gael eu dwyn ymlaen i 2017-18 er mwyn cymhwysu cyfraddau treth dir y dreth stamp a defnyddio system weinyddu CThEM. Disgwylir i'r effaith fod yn niwtral o safbwynt y gyllideb gan y rhagdybir y bydd Llywodraeth y DU'n ad-dalu i Lywodraeth Cymru'r refeniw ychwanegol y mae'n ei gael yn 2017-18 o ganlyniad i'r rhagbrynu.
- A67. Rhagwelir mai'r refeniw net cyffredinol o'r prif gyfraddau amhreswyl yw £64m yn 2018-19 (tabl A9).

**Tabl A9: Amcangyfrif refeniw amhreswyl LTT ar gyfer 2018-19**

<b>Elfen</b>	<b>£m</b>
Cyn ystyried effeithiau ymddygiadol	71
Effaith ymddygiadol ar drafodiadau a phrisiau	-7
<b>Net</b>	<b>64</b>

## Rhent lesioedd amhreswyl

<sup>29</sup> Gweler OBR (2017) [http://budgetresponsibility.org.uk/docs/dlm\\_uploads/SDLT-elasticities.pdf](http://budgetresponsibility.org.uk/docs/dlm_uploads/SDLT-elasticities.pdf)

- A68. Mae cyfradd ar wahân yn gymwys i renti lesioedd. Asesir gwerth rhenti lesioedd trwy ychwanegu'r gwerth dros oes y les, gan ddisgowntio blynyddoedd i ddod i gael gwerth presennol net y codir y dreth arno.
- A69. Rhent y les yw elfen leiaf y dreth LTT, gyda rhyw 2,500 o drafodiadau (heb gynnwys trafodiadau sy'n destun rhyddhad) yn cael eu hamcangyfrif ar gyfer 2018-19. Mae'r elfen hon o dreth dir y dreth stamp wedi cynhyrchu refeniw o rhwng £5m a £10m yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf.
- A70. Cyfraddau LTT ar gyfer gwerth cyfredol net rhent (NPV) les amhreswyl yw:

**Tabl A10: Cyfraddau NPV rhenti les eiddo amhreswyl LTT**

Trothwy NPV	Cyfradd LTT
£0-£150k	0%
£150k-£2m	1%
£2m ac yn uwch	2%

- A71. Cyfraddau trethi treth dir y dreth stamp at ddibenion cymharu yw:

**Tabl A11: Cyfraddau NPV rhenti les eiddo amhreswyl SDLT**

Trothwy NPV	Cyfradd SDLT
£0-£150k	0%
£150k-£5m	1%
£5m ac yn uwch	2%

- A72. I adlewyrchu'r farchnad eiddo yng Nghymru, bydd cyfradd uchaf LTT yn gymwys i NPV is na'r gyfradd uchaf ar gyfer treth dir y dreth stamp. Gan mai i nifer cymharol fach o drafodiadau yn gyffredinol y mae'r gyfradd lesioedd amhreswyl yn gymwys a chan fod cyfraddau lesioedd yn is ar y cyfan yng Nghymru nag mewn rhannau o Loegr, ychydig iawn o drafodiadau fyddai'n talu'r gyfradd uchaf o dreth yng Nghymru pe byddai'n gyson o ran ei werth â threth dir y dreth stamp.
- A73. Fel treth dir y dreth stamp, ni thelir unrhyw dreth ar trafodiadau llai na £150,000. Amcangyfrifir yn 2018-19 y bydd rhyw hanner o drafodiadau yn llai na £150,000 a ddim yn atebol am dreth.
- A74. Rhwng £150,000 a £2m, bydd y rhwymedigaeth drethi yr un peth ar gyfer LTT a threth dir y dreth stamp. O £2 i fyny, bydd y rhwymedigaeth drethi yn uwch o dan LTT nag o dan dreth dir y dreth stamp. Amcangyfrifir y bydd llai na 100 o drafodiadau yng Nghymru gyda NPV o £2m neu fwy yn 2018-19.

- A75. Amcangyfrif yr effeithiau ar y farchnad gan ddefnyddio effeithiau ymddygiadol OBR<sup>30</sup> ynghyd ag amcangyfrif o'r newid yn y dreth ar draws y dosbarthiad prisiau amhreswyl. Amcangyfrifir y bydd yr effaith gyfunol ar drafodiadau a phrisiau yn fach iawn. Gan fod y newid yn y dreth yn gymedrol iawn, disgwylir i hyn leihau £0.1m ar refeniw, a hynny yn bennaf trwy'r effaith negyddol ar nifer y trafodiadau lesddaliadol pris uchel.
- A76. Amcangyfrifir y bydd y rhagolygon refeniw o renti lesoedd amhreswyl yn £7m cyn ystyried unrhyw effeithiau ymddygiadol. Disgwylir i effeithiau ymddygiadol yr elfen hon o'r dreth - o safbwynt prisiau, trafodiadau a rhagbrynu - fod yn fach iawn oherwydd y nifer bach o drafodiadau sy'n atebol am swm gwahanol o dreth o dan LTT o'i gymharu â threth dir y dreth stamp Mae'r refeniw cyffredinol yn 2018-19 heb newid felly, ar amcangyfrif o £7m.

**Tabl A12: Amcangyfrif refeniw amhreswyl LTT ar gyfer 2018-19**

Elfen	£m
Cyn ystyried effeithiau ymddygiadol	7
Effaith ymddygiadol ar drafodiadau a phrisiau	<-1
<b>Net</b>	<b>7</b>

(Efallai na ddaw i gyfanswm oherwydd talgrynnu)

### Proffil y refeniw

- A77. Dangosir rhagolygon o refeniw LTT am y tair blynedd nesaf yn y tabl isod. Amcangyfrifir hyn gan ddefnyddio penderfyniadau OBR diweddaraf y DU (Mawrth 2017) ar gyfer prisiau a thrafodiadau preswyl ac amhreswyl dros y cyfnod wedi'i ragamcanu, net o achub y blaen ac effeithiau ymddygiadol eraill ar sail cronïadau.

**Tabl A13: Rhagolygon refeniw'r dreth trafodiadau tir**

	2018-19	2019-20
Prif gyfraddau preswyl (£m)	142	161
Cyfraddau uwch preswyl (£m)	53	56
Amhreswyl (£m)	71	74
<b>Cyfanswm: (£m)</b>	<b>266</b>	<b>291</b>

Mae amhreswyl yn cynnwys refeniw o gyfraddau rhenti lesoedd.

- A78. I gael rhagor o fanylion am y rhagolygon gweler dogfennau'r gyllideb ddrafft sydd ynghlwm gan aswiriwr annibynnol Llywodraeth Cymru o'r rhagolygon refeniw trethi.
- A79. Mae rhagolygon ac effeithiau LTT wedi'u hamcangyfrif yn gymharol i gyfraddau trethi presennol treth dir y dreth stamp. Os bydd cyfraddau trethi treth dir y dreth stamp yn newid cyn Ebrill 2018, mae effaith LTT, y refeniw a

<sup>30</sup> Gweler OBR (2017) [http://budgetresponsibility.org.uk/docs/dlm\\_uploads/SDLT-elasticities.pdf](http://budgetresponsibility.org.uk/docs/dlm_uploads/SDLT-elasticities.pdf)

gynhyrchir a'r addasiad i'r grant bloc hefyd yn debygol o newid. Gallai hyn olygu bod angen newid i gyfraddau trethi LTT cyn Ebrill 2018.

## Y dreth gwarediadau tirlenwi

- A80. Mae'r dreth gwarediadau tirlenwi (LDT) yn dreth ar waredu gwastraff i safleoedd tirlenwi, sy'n cael ei chodi yn ôl pwysau. Gweithredwyr safleoedd tirlenwi sy'n gyfrifol am dalu'r dreth, a byddant yn trosglwyddo'r costau hyn i weithredwyr gwastraff trwy eu ffioedd clwyd.
- A81. Bydd yn disodli'r dreth dirlenwi yng Nghymru yn Ebrill 2018, gan alluogi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i barhau i elwa ar y referniw a godir gan y dreth. Yn yr un modd â'r dreth dirlenwi, mae'n anelu at sicrhau bod y dull gwaredu tirlenwi yn cael ei brisio'n briodol i adlewyrchu ei gost amgylcheddol ac i hybu dull mwy cynaliadwy o reoli gwastraff. Mae datganoli'r dreth yn cynnig ysgogiad pellach i gefnogi blaenoriaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y nod uchelgeisiol o ddim gwastraff<sup>31</sup> a'n hymdrechion i leihau allyriadau carbon a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.
- A82. Yn gyson â'r DU a'r Alban, bydd cyfradd dreth is a safonol, a fydd yn gymwys i warediadau mewn safleoedd tirlenwi awdurdodedig. Bydd y gyfradd is yn berthnasol i ddeunyddiau cymwys fel y'u diffinnir yn Neddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 a bydd y gyfradd safonol yn gymwys i'r holl ddeunyddiau eraill. Yn ogystal, cyflwynodd Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 drydedd gyfradd o dreth ar gyfer gwastraff sy'n cael ei waredu mewn mannau heblaw safleoedd tirlenwi awdurdodedig - y gyfradd gwarediadau heb eu hawdurdodi.
- A83. Mae'r dull o bennu cyfraddau wedi cael ei arwain gan yr egwyddorion treth yn y fframwaith polisi trethi<sup>32</sup> a'r amcan i leihau gwarediadau tirlenwi yng Nghymru, fel sy'n ofynnol o dan adran 91 o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017. Mae sicrhau sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr a'r diwydiant gwastraff ehangach, gan nodi'r dymuniad i fusnesau allu cynllunio ymlaen llaw a gwneud buddsoddiadau, hefyd wedi bod yn ffactor allweddol wrth bennu'r cyfraddau. Mae'r egwyddor na ddylai fod llai o referniw ar gael i ariannu gwasanaethau cyhoeddus hefyd yn gymwys.
- A84. Ymchwiliwyd i'r dull o fynd ati i bennu cyfraddau trethi gyda rhanddeiliaid fel rhan o ymgynghoriad 2015 *Datblygu Treth Gwarediadau Tirlenwi*, ac mewn digwyddiadau ymgysylltu pellach. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys gweithredwyr safleoedd tirlenwi, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a Grŵp Arbenigwyr Technegol LDT, sydd â

<sup>31</sup> <http://gov.wales/docs/desh/publications/100621wastetowardszerocy.pdf>

<sup>32</sup> Ar gael yn <http://gov.wales/docs/caecd/publications/170612-framework-cy.pdf>

chynrychiolwyr o blith gweithwyr proffesiynol ym maes trethi a'r diwydiant gwastraff ehangach. Casglwyd barn rhanddeiliaid hefyd yn ystod hynt Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017.


### **Cyfraddau trethi is a safonol**

- A85. Ers i'r dreth dirlenwi gael ei chyflwyno yn 1996, mae'r gyfradd dreth safonol wedi codi o £7 y dunnell i £86.10 y dunnell yn 2017-18. Mae'r gyfradd dreth is wedi dal yn eithaf cyson - roedd yn £2 y dunnell pan gafodd y dreth ei chyflwyno ac mae'n £2.70 y dunnell ar hyn o bryd. Yn 2014, cadarnhaodd Llywodraeth y DU y byddai'r cyfraddau trethi safonol ac is yn cael eu cadw mewn termau real (yn ôl y gyfradd chwyddiant fel y'i mesurir gan y Mynegai Prisiau Manwerthu). Disgwylir i'r dull hwn barhau tan o leiaf 2018-19. Mae Llywodraeth yr Alban wedi cadw ei chyfraddau ar gyfer y dreth dirlenwi yn gyson â threth dirlenwi Llywodraeth y DU ers iddi gael ei chyflwyno yn 2015.
- A86. Mae maint y gwastraff sy'n cael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol dros y degawd diwethaf wrth i ailddefnyddio, compostio a llosgi gynyddu. Fel y dengys ffigur A14, mae'r gostyngiad wedi bod yn arbennig o arwyddocaol yn achos gwastraff sy'n destun y gyfradd dreth safonol, sy'n darparu'r mwyafrif helaeth o refferiwr dreth dirlenwi. Mae deunydd cymwys, sy'n destun y gyfradd dreth is, wedi gostwng yn llawer arafach<sup>33</sup>.

---

<sup>33</sup>Nid yw gweithredwyr safleoedd tirlenwi yn cyflwyno ffurflenni trethi sy'n nodi ar wahân gwastraff a waredir yng Nghymru. Felly mae'r rhaniad mewn gwastraff cyfradd safonol ac is wedi'i amcangyfrif gan ddefnyddio data o Gyfoeth Naturiol Cymru.


**Ffigur A14: Amcangyfrifon o wastraff sy'n cael ei dirllenwi yng Nghymru, yn ôl cyfradd dreth.**



Ffynhonnell: Amcangyfrifon Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio data o Gyfoeth Naturiol Cymru

- A87. Mae'r gostyngiad mewn deunydd cyfradd safonol wedi cael ei sbarduno, i raddau helaeth, gan newidiadau yn arferion rheoli awdurdodau lleol. Mae gan yr awdurdodau lleol darged statudol i aildefnyddio, ailgylchu neu gompostio 70% o'r gwastraff y maent yn ei gasglu erbyn 2024-25. Fel y dengys ffigur A15, mae maint y gwastraff y mae'r awdurdodau lleol yn ei anfon i safleoedd tirlenwi wedi bod yn gostwng yn gyflym dros y degawd diwethaf.


**Ffigur A15: Gwastraff trefol yr Awdurdodau Lleol, Cymru**



Ffynhonnell: StatsCymru

- A88. Disgwylir i wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yng Nghymru barhau i ostwng yn y dyfodol. Mae'n debygol y bydd yr awdurdodau lleol yn cynyddu faint o wastraff sy'n cael ei aildefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio er mwyn bodloni targedau statudol. Yn ogystal, bydd capasiti llogi cynyddol ar gael yn y Gogledd a'r De, naill ai trwy ehangu cyfleusterau presennol neu agor cyfleusterau newydd. Mae hyn yn awgrymu y caiff symiau mawr o wastraff, sy'n cael eu trethu i raddau yn ôl y gyfradd safonol, yn cael eu gwyro i ffwrdd o dirlenwi dros y blynyddoedd i ddod.
- A89. Blaenoriaeth allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru yw pontio didrafferth i LDT yn 2018. Gellir disgwyl i unrhyw newidiadau i gyfraddau trethi gael effeithiau ymddygiadol. Maes penodol oedd yn peri pryder ymhlith rhanddeiliaid oedd yr effaith ar fusnes os byddai gwahaniaeth o sylwedd rhwng y cyfraddau trethi a godir yng Nghymru a Lloegr, gyda sawl un yn tanlinellu'r potensial i wastraff groesi'r ffin os byddai'n fwy manteisiol yn economaidd teithio ymhellach i'w waredu.
- A90. Mae'r mwyafrif o safleoedd tirlenwi yng Nghymru wedi'u lleoli o fewn 25 milltir i ffin Cymru-Lloegr ac mae mwy o safleoedd tirlenwi o fewn 25 milltir i'r ffin ar ochr Lloegr.

Ffigur A16: Safleoedd Tirlenwi a Phoblogaethau - Ffin Cymru/Lloegr<sup>34</sup>



<sup>34</sup>Leoliad safleoedd tirlenwi yn seiliedig ar ddata CThEM 2012.  
[http://customs.hmrc.gov.uk/channelsPortalWebApp/channelsPortalWebApp.portal?\\_nfpb=true&\\_pageLabel=pageExcise\\_ShowContent&id=HMCE\\_PROD\\_009941&propertyType=document](http://customs.hmrc.gov.uk/channelsPortalWebApp/channelsPortalWebApp.portal?_nfpb=true&_pageLabel=pageExcise_ShowContent&id=HMCE_PROD_009941&propertyType=document)

- A91. Mae dadansoddiad o gyfraddau cludo nwyddau yn awgrymu y gallai gwahaniaeth cymharol fach o £10 mewn cyfraddau rhwng Cymru a Lloegr fod yn gymhelliant ariannol sylweddol i symud gwastraff ar draws ffiniau.
- A92. Gallai gostyngiad mewn cyfraddau LDT hybu mwy o warediadau tirlenwi yng Nghymru. Nid yw hyn yn gyson â'n nod o leihau gwarediadau tirlenwi. Byddai cynnydd mewn gwastraff sy'n cael ei waredu yng Nghymru yn cael effaith hefyd o safbwynt llesiant a'r amgylchedd ar gyfer cymunedau. Er enghraifft: byddai:
- Yn cynyddu gwastraff, gan gynnwys gwastraff a allai fod yn beryglus, gan deithio pellterau pellach ar brif ffyrdd a thrwy ardaloedd preswyl.
  - Yn cynyddu aflonyddwch i breswylwyr yn agos at safleoedd tirlenwi a gorsafoedd trosglwyddo gwastraff.
  - Yn cynyddu ôl troed carbon gwaredu gwastraff;
  - Yn cynyddu pwysau ar gapasiti tirlenwi presennol, gyda galwadau posibl i safleoedd tirlenwi newydd gael eu datblygu.
- A93. I'r gwrthwyneb, gallai cynnydd yng nghyfraddau LDT annog i lai o wastraff gael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi na phe bai'r dreth dirlenwi'n parhau i fod yn gymwys, gan leihau faint o refeniw a gesglir. Mae hyn yn anghyson â'n hegwyddor na ddylai fod llai o refeniw ar gael i ariannu gwasanaethau cyhoeddus.
- A94. Mae rhanddeiliaid wedi awgrymu bod y gyfradd safonol wedi cyrraedd ei lefel fwyaf effeithiol lle mai tirlenwi'r deunyddiau hyn yw'r ffordd ddrutaf, a thrwy hynny, leiaf deniadol, o waredu gwastraff. Gallai cynyddu cyfraddau trethi fod yn gymhelliant i warediadau gwastraff heb eu hawdurdodi. Mae rhai rhanddeiliaid wedi gwneud yr achos o blaid cynyddu'r gyfradd isaf i hybu mwy o ailgylchu, ailddefnyddio ac adfer yn achos y deunyddiau hyn ond roedd y mwyafrif am gael cysondeb â chyfraddau'r DU er mwyn cadw'r risg o dwristiaeth gwastraff i'r lleiaf posibl, gan gynnwys, o leiaf i ddechrau, ar gyfer y gyfradd isaf.
- A95. Mae ymgysylltu â threthdalwyr a'r diwydiant gwastraff hefyd wedi nodi y bydd o gymorth iddynt wybod cyfraddau ymlaen llaw er mwyn llywio eu cynlluniau busnes a buddsoddiadau. Yng ngoleuni hyn, caiff y cyfraddau eu pennu am ddwy flynedd.
- A96. Yn gryno, am ddwy flynedd gyntaf LDT, bwriedir i'r cyfraddau safonol a'r cyfraddau isaf adlewyrchu'r cyfraddau ar gyfer treth dirlenwi Llywodraeth y DU.
- A97. Mae tabl A17 yn dangos y cyfraddau ar gyfer 2018-19. Nid yw Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi hyd yma ei chyfraddau ar gyfer y dreth dirlenwi yn 2019-20. Felly rhoddir cyfradd ragdybiedig yn y tabl uchod, sy'n cynyddu'r cyfraddau treth ar gyfer 2018-19 yn ôl rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer RPI. Mae hyn yn cydymffurfio â'r polisi sydd wedi'i ddatgan gan Lywodraeth y DU ar bennu cyfraddau'r dreth dirlenwi.

**Tabl A17: Cyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi (y gyfradd i bob tunnell)**

<b>Cyfradd</b>	<b>2018-19</b>	<b>2019-20</b> <i>Rhagdybiedig</i>
Safonol	£88.95	£91.70
Is	£2.80	£2.90

- A98. Wrth ddatblygu'r dreth gwarediadau tirlenwi cafwyd neges glir gan randdeiliaid ynghylch yr angen i weithredu treth sy'n darparu cysondeb, sicrwydd a sefydlogrwydd i fusnesau. Hon fu'r ffactor allweddol y tu ôl i'r penderfyniad i bennu cyfraddau sy'n gyson â gweddill y DU. Trwy bennu cyfraddau sy'n gyson â'r dreth dirlenwi, bydd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n dal i elwa ar refeniw trethi, tra'n sicrhau bod y risg o symud gwastraff ar draws ffiniau'n cael ei leihau.
- A99. Gan fod y cyfraddau trethi arfaethedig yn gyson â'r dreth dirlenwi, ni ddisgwylir gweld unrhyw newid sylweddol ym maint y gwastraff a waredir mewn safleoedd tirlenwi awdurdodedig yng Nghymru. Disgwylir i refeniw o'r dreth gwarediadau tirlenwi barhau i ostwng wrth i fwy a mwy o wastraff gael ei wro i ffwrdd o dirlenwi yn y dyfodol.

**Tabl A18: Rhagolygon refeniw'r dreth gwarediadau tirlenwi**

	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22
Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (£m)	28	26	23	22

### **Gwarediadau heb eu hawdurdodi**

- A100. Caiff treth ei chodi hefyd ar wastraff a waredir mewn lleoedd heblaw safle tirlenwi awdurdodedig - a elwir yn warediadau heb eu hawdurdodi. Bydd unrhyw berson sy'n gwneud y gwarediad neu sydd yn fwriadol yn peri i'r gwarediad gael ei wneud, neu'n caniatáu hynny yn fwriadol, yn atebol am y dreth.
- A101. Prif nod trethu gwarediadau heb eu hawdurdodi yw atal y weithred. Ym Medi 2016, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod 60 o safleoedd gwastraff anghyfreithiol yng Nghymru gyda rhyw 55,000 o dunelli o wastraff ar draws y safleoedd hyn
- A102. Mae'r polisi hwn wedi cael ei ddatblygu i gyd-fynd â rheoliadau amgylcheddol presennol ac i gydategu mentrau ehangach gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys ei dull o ymdrin â thipio anghyfreithlon.
- A103. Mae ein dull gweithredu'n anelu at roi budd i'r cymunedau y mae gwarediadau heb eu hawdurdodi'n effeithio arnynt trwy geisio atal y gweithgarwch hwn yn y dyfodol. Mae hefyd yn anelu at leihau cyfleoedd i efadu trethi a thrwy hynny

warchod referniw i'w fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

- A104. Mae'n bwriadu sicrhau bod mwy o elfen o risg i warediadau heb eu hawdurdodi, gan olygu ei fod yn opsiwn llai deniadol i'r rhai sy'n ei chael hi'n demtasiwn i anwybyddu eu rhwymedigaethau amgylcheddol ac efadu trethi. Mae hefyd yn ceisio ail-alinio cydbwysedd y risg, fel bod canlyniadau gwneud gwarediadau heb eu hawdurdodi yn drech na mantais ganfyddedig efadu trethi.
- A105. Yn gyson â diben y dreth fel ysgogiad i ddylanwadu ar ymddygiadau amgylcheddol cadarnhaol mae'r dull hwn yn ceisio annog unigolion i ymdrechu i ddefnyddio dulliau cynaliadwy o waredu gwastraff neu, o leiaf, i fynd â gwastraff i safle tirlenwi cofrestredig a thalu cyfran deg o drethi.
- A106. Caiff y gyfradd ar gyfer gwarediadau heb eu hawdurdodi ei phennu'n 150% o'r gyfradd safonol.

**Tabl A19: Cyfradd dreth gwarediadau heb eu hawdurdodi ((y gyfradd i bob tunnell)**

	<b>2018-19</b>	<b>2019-20</b> <i>Rhagdybiedig</i>
Cyfradd gwarediadau heb eu hawdurdodi	£133.45	£137.55

- A107. Mae pennu'r gyfradd yn 150% yn darparu datgymhelliant ariannol addas. Mae'n cynnig lefel o degwch, cymesuredd a thryloywder. Mae'n adlewyrchu bod gweithredwyr safleoedd tirlenwi cofrestredig, mewn amgylchiadau arferol, yn ysgwyddo costau gweinyddol yn ymwneud â chofrestru, ffeilio, talu a chadw cofnodion ac y byddai'r rhain wedi cael eu hosgoi ynghyd â chosbau a llog, a fyddai wedi cael eu cymhwyso i weithredwr safle tirlenwi cofrestredig am fethu â gwneud y rhain. Mae pennu'r gyfradd yn 150% felly'n helpu i greu chwarae teg i fusnesau gwastraff cyfreithlon. Mae'r gyfradd gwarediadau heb eu hawdurdodi hefyd yn cydnabod costau cydymffurfio a gorfodi Awdurdod Cyllid Cymru (ACC),
- A108. Prif nod cyfradd drethi ar wahân ar gyfer gwarediadau heb eu hawdurdodi yw atal gwarediadau heb eu hawdurdodi yn hytrach na chodi refeniw trethi. Bydd ACC yn gyfrifol am benderfynu ar lefel y gweithgarwch cydymffurfio a gorfodi y mae'n ei wneud mewn perthynas â gwarediadau heb eu hawdurdodi. Disgwylir i'r dull hwn fod yn gymesur ac yn gost-effeithiol a chael ei ystyried yng nghyd-destun y mentrau ehangach sy'n cael eu symud ymlaen gan Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r awdurdodau lleol i fynd i'r afael â gwarediadau heb eu hawdurdodi. Rhagwelir mai canolbwynt ACC fydd safleoedd gwastraff mwy o faint heb eu hawdurdodi ac y gallai gael ei ymestyn i'r rhai sy'n tipio gwastraff yn anghyfreithlon yn gyson lle mae llawer o dunelli o wastraff wedi'u rhoi a threthi wedi'u hefadu.
- A109. Tanlinellodd adroddiad gan y diwydiant<sup>35</sup> yn 2015 y disgwylir i bob £1 sy'n cael ei gwario ar orfodi troseddu gwastraff ddychwelyd rhwng £3.60 a £5.60 i'r Llywodraeth. Mae'n glir bod hyn yn peri bod gorfodi'r pwerau hyn yn arf gwerthfawr ac yn un a allai fod yn fuddsoddiad defnyddiol yn y tymor hir. Mae costau gweithredol ACC yn cynnwys costau ar gyfer gweithgarwch cydymffurfio a gorfodi.
- A110. Ni fydd LDT yn gymwys ond i warediadau a wneir ar ôl i'r dreth gael ei chyflwyno ar 1 Ebrill 2018 - ar hyn o bryd nid yw lefelau diffyg cydymffurfio yn hysbys ac felly ni ellir meintoli costau cydymffurfio a gorfodi a lefel y refeniw posibl. Nid yw refeniw posibl o'r gyfradd gwarediadau heb eu hawdurdodi'n cael ei gynnwys felly yn y rhagolygon o'r refeniw LDT.
- A111. Bydd treth a gesglir o warediadau heb eu hawdurdodi yn cefnogi darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gyda rhywfaint o refeniw'n cael ei ddyrannu i Gyfoeth Naturiol Cymru a'r awdurdodau lleol lle maent wedi bod yn

<sup>35</sup> [http://www.esauk.org/esa\\_reports/ESAET\\_Waste\\_Crime\\_Tackling\\_Britains\\_Dirty\\_Secret\\_LIVE.pdf](http://www.esauk.org/esa_reports/ESAET_Waste_Crime_Tackling_Britains_Dirty_Secret_LIVE.pdf)

allweddol o ran cynorthwyo'r ymchwiliad a mynd ar drywydd trethi ac i gymell camau gweithredu pellach.

A112. Mae fframwaith gwerthuso'n cael ei ddatblygu i asesu effaith y dull newydd hwn ac fe gedwir llygad barcud ar y gyfradd gwarediadau heb eu hawdurdodi.